Yn darparu ar gyfer darllenwyr a hysbysebwyr

www.caerdydd.gov.uk

ENILLWCH DOCYNNAU TWENTY20 - TUD. 9

Llais y Ddinas

Cyngor Caerdydd Rhifyn 151 Gorffennaf 2013

Lawr ar lan y môr

DYLAI trigolion ac ymwelwyr â Chaerdydd nôl eu sbectol haul a'u heli haul wrth i Roald Dahl Plass gael ei weddnewid yn draeth trefol fel rhan o Ŵyl Caerdydd.

Mae'r ŵyl yn dathlu 28 mlynedd eleni, ac mae'n fwy ac yn well bob blwyddyn, a bydd yn dilyn esiampl dinasoedd fel Paris, Berlin a Phrâg i greu traeth yn y bae.

Bydd y traeth trefol, a fydd ar agor gydol yr haf, yn gweddnewid Roald Dahl Plass yn hafan ar lannau'r môr gyda chadeiriau haul, deciau, parasolau enfawr a thraeth i blant gyda phwll tywod ac ardal chwarae dŵr bas.

Bydd cerddoriaeth ac adloniant byw gan grwpiau cerddoriaeth a dawns lleol i greu amgylchedd carnifal ynghyd â chymysgedd o reidiau traddodiadol, atyniadau a stondinau. Bydd hefyd pyst gôl a rhwydi pêl foli ar gyfer cystadlaethau pêl-droed a phêl-foli traeth.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Huw Thomas: "Mae'n bwysig bod syniadau newydd yn cael eu datblygu i Ŵyl Caerdydd barhau i fod yn newydd a difyr.

Parhad ar dudalen 3

CARDIFF
CAERDYDD

NEWYDDION

Datblygiad Pointe Caerdydd – tud. 3

Hyb Cynghori Tŷ Marland yn agor – tud. 4

Wyneb newydd Tir Hamdden Tredelerch – tud. 5

Cysylltu â Llais y Ddinas

Sut i gysylltu â ni

Llais y Ddinas yw'r papur â'r cylchrediad mwyaf yng Nghaerdydd, ac fe'i dosberthir am ddim i'r rhan fwyaf o gartrefi'r ddinas 12 gwaith y flwyddyn gan y Post Brenhinol.

Os hoffech chi roi sylwadau ar unrhyw beth rydych wedi ei weld yn y papur neu wasanaethau'r cyngor yn gyffredinol, neu os hoffech gyflwyno erthygl am eich sefydliad cymunedol chi, cysylltwch â'n tîm golygyddol ar: 029 2087 2451. Gallwch ein e-bostio hefyd yn llaisyddinas@caerdydd.gov.uk

Mae'r papur hefyd ar gael o swyddfeydd y cyngor a chyfleusterau megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ledled y ddinas ac ar wefan y cyngor, www.caerdydd.gov.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â dosbarthu Llais y Ddinas, ffoniwch 029 2087 2451 neu e-bostiwch llaisyddinas@caerdydd.gov.uk

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn: Llais y Ddinas, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

Ar gyfer pob ymholiad arall yn ymwneud â gwasanaethau'r cyngor, gallwch gysylltu â'n canolfan gyswllt ragorol, Cysylltu â Chaerdydd, ar 029 2087 2088.

Er y gall hysbysiadau y telir amdanynt ymddangos yn Llais y Ddinas, nid yw'r Cyngor yn cynrychioli nac yn ardystio cywirdeb, ansawdd na dibynadwyedd cynhyrchion, gwasanaethau neu gwmnïau a hysbysebir, nag unrhyw honiadau a wneir gan hysbysiadau o'r fath.

Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol nac yn atebol mewn perthynas ag unrhyw gynhyrchion, gwasanaethau, gwybodaeth neu ddeunydd arall a brynir neu a ddefnyddir gennych chi mewn perthynas â'r hysbysebion hyn.

Hysbysebu yn Llais y Ddinas

I hysbysebu yma cysylltwch â'r Tîm Gwerthu ar 029 20876 2522 neu e-bostiwch hysbysebu@caerdydd.gov.uk

Peidiwch ag anghofio

Ar ôl darllen Llais y Ddinas, ailgylchwch y papur.

Diwrnod ym mywyd

Y diweddaraf mewn cyfres reolaidd sy'n edrych ar swyddi gweithwyr y Cyngor. Maddalena Fabrizi, Rheolwr Marchnad Caerdydd, sy'n siarad â Llais y Ddinas y mis hwn.

MAE fy swyddfa yn nhŵr cloc Marchnad Caerdydd ac mae gennyf olwg oddi uchod o'r farchnad brysur.

Bu Marchnad Caerdydd yn masnachu ers y 1700au a bu ar y safle hwn yn yr Aes ers 100 mlynedd. Mae'n wych i fod yn rhan o sefydliad o'r fath. Rwy'n rheolwr y farchnad ers saith mlynedd a hanner.

Rwy'n cydweithio'n agos â thenantiaid i helpu gydag unrhyw ymholiadau sydd ganddynt, gan ymweld â'u stondinau yn rheolaidd. Rwyf wedi datblygu cydberthnasau da â nhw, ac mae nifer o'r stondinau yn nwylo'r un teuluoedd ers cenedlaethau.

Ynghyd â chwrdd â'r tenantiaid presennol rwyf hefyd yn cwrdd â darpar denantiaid ac yn eu rhoi ar y rhestr ymholiadau. Pan ddaw uned yn wag, fi a fy rheolwyr sy'n gyfrifol am brosesu'r ceisiadau.

Mae amryw fusnesau yn y farchnad i ddenu ymwelwyr. Yn ddiweddar mae stondin dillad yr arferai pobl eu gwisgo wedi agor ac mae hyn wedi dod â rhywbeth newydd i'r farchnad. Mae cymaint o amrywiaeth ar gael yma yn y farchnad ac mae rhywbeth yma at ddant pawb.

Yn ogystal â'n cwsmeriaid rheolaidd, mae llawer o dwristiaid yn ymweld â'r farchnad ac maent bob amser yn rhoi adborth cadarnhaol iawn i ni.

Rwy'n goruchwylio tîm o chwe aelod o staff, ac rydym yn gydgyfrifol am redeg y farchnad o ddydd i ddydd, yn cynnwys y trefniadau diogelwch a glanhau.

Mae awyrgylch gwych yn y farchnad drwy gydol y flwyddyn, gan newid ei gwedd wrth i rod y tymhorau droi, gyda'r eitemau tymhorol a werthir yn dod â golygfeydd ac arogleuon newydd. Y Nadolig yw fy hoff dymor o bellffordd – nid oes unrhyw beth cystal â'r awyrgylch Nadoligaidd, a dyma'r amser prysuraf o'r flwyddyn i'r masnachwyr. Mae'r farchnad ar agor yn hwyrach yn ystod yr wythnos ac mae ar agor ar ddydd Sul hefyd.

Un o fy hoff agweddau ar y rôl yw cwrdd â phobl, o'r ymwelwyr rheolaidd i gwrdd â phobl enwog.

Mae rhai cymeriadau diddorol i'w gweld yn y farchnad. Fel tirnod enwog, rydym hefyd yn cael llawer o geisiadau gan gwmnïau cynhyrchu rhaglenni teledu i ffilmio yma. Yr uchafbwynt i fi oedd cael cwtsh gan Olivia Newton John fu yma'n recordio rhaglen am ei gwreiddiau Cymreig ar gyfer y BBC rai blynyddoedd yn ôl.

Bu'r X Factor, Britain's Got Talent a llawer mwy yn ffilmio yma dros y blynyddoedd, a gwn fod hyn yn cyffroi'r masnachwyr.

Mae pobl yn dweud wrthyf yn rheolaidd fod y farchnad yn lle gwych i ymweld ag ef, ac yn fy marn i mae'n lle gwych i weithio hefyd. Mae'n un o drysorau'r ddinas ac rwyf mor ddiolchgar fy mod yn rhan o'r sefydliad trawiadol hwn sy'n rhan o hanes Caerdydd.

Ceiswyr gwaith yn rhoi sêl bendith i project

YMUNODD Cynghorydd Butetown Ali Ahmed â Swyddog Cyllid Llywodraeth Cymru Jane Hutt ar ymweliad â phroject lleol flwyddyn ar ôl ei sefydlu.

Mae dros 200 o bobl wedi cofrestru â phroject BEST (Gwasanaeth Cymorth Cyflogaeth a Hyfforddiant) Cyngor Caerdydd yn Sgwâr Loudoun, sydd â'r nod o helpu pobl yn Butetown i ddod o hyd i waith.

Mae'r project a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar gyflogaeth a sefydlu busnes yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant a sgiliau.

Mae'n rhan o gynllun ehangach i adfywio Butetown sy'n cynnwys gwelliannau eraill i'r ardal megis Pafiliwn Ieuenctid a Chanolfan Gymunedol newydd.

Bu'n bosibl i lawer o'r bobl ifanc sy'n mynychu'r Pafiliwn Ieuenctid gael gwybod am BEST a chael cymorth i wella eu cyfleoedd o gael swydd hefyd.

Cymerodd Sean Watkins, 16 oed, ran yn y Project Lolfa Goffi – sef pecyn hyfforddiant arloesol a ddarparwyd gan BEST sy'n canolbwyntio ar hylendid bwyd, gwasanaethau cwsmeriaid a gwneud coffi mewn partneriaeth â siopau coffi lleol.

Roedd Sean yn ddi-waith ar ôl gadael yr ysgol gyda dim ond ychydig o gymwysterau TGAU. Galluogodd y cymorth a gynigiwyd drwy BEST iddo feithrin amryw sgiliau ac ennill cymwysterau fu'n gymorth iddo gael swydd gydag Italigo – sef cwmni bwydydd cyflym newydd a sefydlwyd yng nghanol y ddinas.

Dywedodd: "Cyn mynychu project y Lolfa Goffi, roeddwn yn chwilio am swydd, ond roedd yn anodd iawn oherwydd nid oedd gennyf fawr ddim profiad na chymwysterau. Roedd gan dîm Ganolfan BEST ffydd ynof a gwnaeth hynny fy ysgogi i fod yn bresennol, gan gerdded 45 munud i fod y cyntaf i gyrraedd bob dydd. Rwy'n falch fy mod wedi cwblhau'r cwrs."

Mae BEST hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i'r sawl sydd am fagu profiad hanfodol i wella'u cyfleoedd o ddod o hyd i gyflogaeth yn y dyfodol. Ar ôl cwblhau cwrs iechyd a gofal cymdeithasol, mae Emma Hendrickson, 26 oed, sydd hefyd yn fam i dri o blant, bellach yn gwirfoddoli yng Nghanolfan BEST ddwywaith yr wythnos.

Dywedodd: Nid oeddwn erioed wedi ystyried gyrfa weinyddol, rwyf wastad wedi chwilio am swyddi glanhau neu ofalu, ond mae BEST wedi rhoi'r hyder i mi ddatblygu gyrfa newydd, a bu gwirfoddoli gyda BEST yn brofiad gwych. Flwyddyn yn ôl ni fyddwn erioed wedi dychmygu y byddwn yn y sefyllfa hon."

Dywedodd y Cynghorydd Ahmed: "Rwyf wrth fy modd o weld y cyfleoedd a roddir i bobl yn Butetown drwy'r project ardderchog hwn i wella'u bywydau."

• Gall BEST helpu ceiswyr swyddi lleol gael cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth. Mae ganddynt ddiddordeb hefyd mewn gweithio gyda chyflogwyr lleol i ddarparu ymgeiswyr medrus i ddiwallu eu hanghenion recriwtio. Am ragor o wybodaeth ffoniwch Canolfan BEST ar 029 2087 3563.

Dyddiadau Pwyllgorau: Mehefin/Gorffennaf 2013

Dydd Mawrth 18 Mehefin,
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion,
5.00pm, Ystafell Bwyllgor 1.

Dydd Mercher, 19 Mehefin,
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd,
10.30am, Ystafell Bwyllgor 4

Dydd Iau, 27 Mehefin,
Y Cyngor,
4.30pm, Neuadd y Ddinas.

Dydd Gwener, 28 Mehefin,
Cydbwyllgor Archifau Morgannwg,
2.00pm, Swyddfa Cofnodion, Lecwydd.

Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf,
Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd,
10.30am, Ystafell Bwyllgor 1

Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf,
Pwyllgor Craffu Amgylcheddol,
4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4

Dydd Iau, 4 Gorffennaf,
Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant,
4.30pm, Ystafell Bwyllgor 4

Dydd Llun, 8 Gorffennaf,
Pwyllgor Archwilio,
4.30pm

Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf,
Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc,
2.30pm, Ystafell Bwyllgor 3

Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf,
Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad,
4.30pm, Neuadd Ferrier, Neuadd y Ddinas

Dydd Mercher, 10 Gorffennaf,
Pwyllgor y Cyfansoddiad,
4.00pm, Ystafell Bwyllgor 3

Dydd Iau, 11 Gorffennaf,
Cabinet,
2.30pm, Ystafell Pwyllgor 3

Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf,
Pwyllgor Safonau a Moeseg,
Ystafell Bwyllgor 1

Dydd Mercher, 17 Gorffennaf,
Cynllunio (Rheoli Datblygu),
2.30pm, Ystafell Ddigwyddiadau D, Neuadd y Ddinas.

Dydd Mawrth , 23 Gorffennaf,
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion,
5.00pm, Ystafell Bwyllgor 4.

Dydd Iau, 25 Gorffennaf,
Y Cyngor,
4.30pm, Neuadd y Ddinas.

Mae'r dyddiadau yn gywir wrth fynd i'r wasg, ond gallant newid. Os hoffech fynychu un ohonyn nhw, rhaid cadarnhau gyda Gwasanaethau Pwyllgor ar 2087 2000.

Datblygiad newydd yn Pointe Caerdydd

• Argraffiadau artistiaid o'r datblygiad newydd (uchod a'r dde). Arweinydd y Cyngor Heather Joyce (canol) a'r Cyng Russell Goodway (chwith bellaf) yn y lansiad swyddogol.

MAE cam cyntaf datblygiad cyffrous sy'n costio miliynau o bunnoedd yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yn mynd rhagddo..

Bydd y datblygiad newydd ger Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd yn cynnwys arena iâ ddwbl safon Olympaidd ac ardal breswyl gynaliadwy gyda thua 800 o gartrefi newydd.

Gan siarad yn y lansiad dywedodd Arweinydd Cyngor Caerdydd y Cynghorydd Heather Joyce, "Dyma fuddsoddiad gwych i'n dinas, a fydd yn sicr yn gwneud cyfraniad enfawr at ddyfodol economi Caerdydd.

"Yn ystod etholiadau'r Cyngor ychydig dros flwyddyn yn ôl, dywedais yn glir y byddai fy ngweinyddiaeth i yn mynd ati i gynnig cyfleoedd busnes yng Nghaerdydd unwaith eto a gweithio gyda phartneriaid busnes i wneud y ddinas yn gyrchfan wirioneddol ryngwladol. Mae project y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yn enghraifft wych o'r uchelgais hwnnw."

Mae'r cyngor yn gweithio gyda Greenbank Partnerships Limited a'i is-gwmnïau Helium Miracle 113 a Figurehead Homes ar y datblygiad newydd.

Bellach mae'r cam diweddaraf yn natblygiad y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol ar waith, ac mae iddo ddwy elfen:

Arena iâ ddwbl o safon Olympaidd gyda seddi ar gyfer 3,000 o wylwyr. Bydd y ganolfan ddeulawr yn bencadlys i dîm hoci iâ Cardiff Devils a bydd hefyd ar agor i'r cyhoedd.

Pointe Caerdydd - ardal breswyl gynaliadwy newydd £200m ar bentir Grangetown. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r cynllun ym mis Mawrth 2013 a bydd yn cynnwys 640 o dai a fflatiau. Bydd hefyd 160 o unedau byw fforddiadwy ar safleoedd gerllaw.

Yn y dyfodol bydd y gwaith yn cynnwys adeiladu llethr sgïo dan do 150m; un o'r canolfannau eira dan do mwyaf yn y byd; tŵr defnydd cymysg trawiadol - y talaf yng Nghymru; orielau; gwesty, canolfannau manwerthu, tai a swyddfeydd.

Ychwanegodd y Cynghorydd Joyce, "Bydd y datblygiad hwn yn edrych yn ardderchog ond bydd hefyd yn creu miloedd o swyddi, yn denu degau o filoedd o ymwelwyr ychwanegol i'r ddinas a darparu cartrefi - yn cynnwys cartrefi fforddiadwy - i bobl yng Nghaerdydd. Y canlyniad fydd cyfleusterau cyfoes y gall pawb eu defnyddio yn cynnwys, yn hanfodol, dau lawr sglefrio iâ a gaiff eu defnyddio gan Cardiff Devils yn ogystal ag amrywiaeth o chwaraeon y gaeaf i bobl roi cynnig arnynt. Bydd y project hwn yn gwneud cyfraniad enfawr at hyrwyddo enw da Caerdydd fel prifddinas chwaraeon sydd gyda'r gorau yn y byd."

Ewch gyda'r llif ar atyniad diweddaraf Caerdydd

MAE atyniad cyffrous diweddaraf y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol wedi agor yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd.

Mae'r peiriant FlowRider newydd yn fodd i ddechreuwyr pur a syrffwyr profiadol syrffio dan do drwy gydol y flwyddyn. Mae'n sicr o fod yn atyniad poblogaidd arall ym Mae Caerdydd.

Gall dau berson gorff-fyrddio ar y FlowRider ar yr un pryd, felly gall ffrindiau a theuluoedd fynd benben â'i gilydd mewn cystadleuaeth i ddofi'r dyfroedd.

Cafodd tîm y ganolfan hyfforddiant arbennig fel y gallant gyfarwyddo syrffwyr a galluogi unigolion a grwpiau i fwynhau corff-fyrddio ar arwyneb meddal mewn amgylchedd diogel.

Fel rhan o'r lansiad swyddogol, cafodd y gwesteion weld arddangosiad o'r FlowRider gan syrffwyr proffesiynol gan gynnwys Pencampwr Flowrider Iau Ewrop Sam Atkins, Tom Booth a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Flowrider Hŷn Ewrop, a Charlie Wright a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Corff-fyrddio Ewrop.

Dywedodd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Busnes a'r Economi Leol, a oedd yn yr agoriad: "Syrffio dan do yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd yw'r rhan ddiweddaraf o ddatblygiad y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, sef enghraifft wych o sut y mae Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid yn cydweithio i wireddu gweledigaeth y ddinas ar gyfer adfywio'r hen ddociau, a chreu cyrchfan hamdden ffyniannus sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb.

"Dyma'r unig gyfleuster Syrffio dan Do o'i fath yng Nghymru, a gall dechreuwyr a syrffwyr profiadol ei fwynhau."

Ychwanegodd: "Mae Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd eisoes wedi cyflawni cryn dipyn ers agor yn 2010, gan ennill gwobrau a chynnal digwyddiadau rhyngwladol. Mae Syrffio Dan Do yn ychwanegu dimensiwn arall deniadol i'r ganolfan."

Parhad o dudalen 1

Rwy'n siŵr y bydd y traeth yn rhan wych o raglen yr ŵyl ac y bydd yn ddiwrnod am ddim bendigedig i drigolion ac ymwelwyr.

"Crëwyd Roald Dahl Plass i fod yn rhywle i gynnal digwyddiadau ac rydym wrth ein bodd ein bod wedi dod i gytundeb â'r trefnwyr i gynnal yr atyniad am ddim hwn heb i'r Cyngor dalu dim. Bydd yn lle gwych i gael parti, clywed cerddoriaeth fyw wych, a chael lliw haul deniadol.

Bydd yr uchafbwyntiau'n cynnwys Gŵyl Bwyd a Diod Ryngwladol Caerdydd, a gynhelir rhwng dydd Gwener 12 Gorffennaf a dydd Sul 14 Gorffennaf. Bydd Carnifal Caerdydd ar strydoedd y ddinas ar 10 Awst, gyda Gŵyl Harbwr Caerdydd yn croesawu dychweliad Hwylio Eithafol yn y Bae ar Ŵyl Banc Awst.

Ychwanegodd y Cynghorydd Thomas: "Fel Cyngor rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid preifat a chyhoeddus i greu Gŵyl Caerdydd gyffrous nad yw'n dibynnu ar gyllid y Cyngor yn unig. Yr haf hwn rydym wedi creu rhaglen haf amrywiol sy'n cynnig diwrnodau newydd i bobl eu mwynhau. Gyda chynifer o ddigwyddiadau, perfformwyr a lleoliadau gwych ar y gweill i arddangos Caerdydd ar ei gorau, bydd gŵyl eleni yn goron ar haf y brifddinas."

• I gael rhagor o fanylion am ddigwyddiadau Gŵyl Caerdydd ewch i www.gwylcaerdydd.com a dilynwch @CardiffFestival ar Twitter

Newyddion yn gryno

Ymwelwyr o Siapan

CROESAWODD disgyblion o Ysgol Uwchradd Cantonian ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr fyfyrwyr cyfnewid o Siapan ar ymweliad â phrifddinas Cymru ym mis Mawrth.

Treuliodd myfyrwyr o bum ysgol uwchradd iau o Sakai, Siapan, amser yn y ddwy ysgol yn ystod eu hymweliad a chawsant gipolwg ar ddiwylliant Cymru mewn gwasanaethau, dosbarth coginio Cymraeg a thwmpath. Ymwelodd staff o Siapan â Chastell Caerdydd, aethant ar daith cwch ar Arfon Taf a thaith o amgylch y Senedd.

Cyflwynodd y pum ysgol o Siapan arddangosiadau diwylliannol gwahanol iawn ar eu hymweliad â Phlasmawr cyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwasanaeth ffarwelio gyda chlocsio Cymreig a chanu. Bydd y cyfnewid yn digwydd eto'r flwyddyn nesaf gydag ymweliad arall gan fyfyrwyr o Siapan cyn i 25 o fyfyrwyr o Blasmawr a Cantonian deithio i Sakai yng Ngorffennaf 2014.

Ysgol Uwchradd Caerdydd yn cael ei chanmol mewn adroddiad

CANMOLWYD Ysgol Uwchradd Caerdydd mewn adroddiad archwilio diweddar a ddaeth i'r casgliad bod yr ysgol yn perfformio'n wych.

Cafodd yr ysgol yn Llandennis Road, Cyncoed, ei harolygu'n ddiweddar gan Estyn fel rhan o'r rhaglen arolygu ysgolion genedlaethol.

Diben yr arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella safon yr addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Daeth yr adroddiad ar Ysgol Uwchradd Caerdydd i'r casgliad fod y safonau a gyflawnir gan y disgyblion yn gyson uchel ac yn uwch o lawer na'r disgwyliadau; mae lefelau presenoldeb yn dda; mae ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ac mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, ac wedi datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at safon y gofal, y cymorth a'r arweiniad a gynigiwyd gan yr ysgol, a nodwyd bod "ethos cynhwysol yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at agweddau cadarnhaol y disgyblion at ddysgu, ynghyd â'u canlyniadau da."

Nododd arolygwyr fod Ysgol Uwchradd Caerdydd mewn sefyllfa ragorol i wella a bod arweinwyr yr ysgol hefyd yn "ardderchog".

• Disgyblion Ysgol Uwchradd Caerdydd yn y dosbarth.

Dywedodd pennaeth Ysgol Uwchradd Caerdydd, Steve Jones: "Rydyn ni wrth ein boddau gyda chanfyddiadau Estyn. Mae staff Ysgol Uwchradd Caerdydd yn gweithio'n galed ac rydyn ni bob amser yn ceisio gwella ein harferion yn yr ystafell ddosbarth. Mae gennym berthynas ardderchog â'r disgyblion, y rhieni a'r gymuned ac mae hyn yn cyfrannu at ganlyniadau gwych ein disgyblion."

Dywedodd y Cynghorydd Julia Magill, yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: "Rydw i wrth fy modd bod Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi cael cydnabyddiaeth gan Estyn fel ysgol ragorol. Mae plant a phobl ifanc Ysgol Uwchradd Caerdydd yn cyflawni canlyniadau gwych mewn ysgol ag ethos arbennig. Mae hyn yn rhoi dechrau gwych iddynt mewn bywyd. Hoffwn longyfarch y Pennaeth Steve Jones a phawb yn yr ysgol am sicrhau adroddiad cystal gan Estyn."

Cornel Bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu popeth byw. Mae'n rhoi bwyd, dillad, moddion, deunydd adeiladu a thanwydd i ni. Mae'n ein helpu i ymlacio ac yn lleihau straen. Bob mis, bydd Ecolegydd Cyngor Caerdydd, **Matthew Harris**, yn sôn am fioamrywiaeth wych y ddinas.

GORFFENNAF

CAERDYDD yw un o ddinasoedd gwyrddaf y DU, a gallwch weld llawer o fywyd gwyllt yn hawdd. Fodd bynnag, mae'n anoddach dod o hyd i rai planhigion ac anifeiliaid eraill.

Felly, i'n hannog i edrych yn agosach mae Cyngor Caerdydd wedi lansio cyfres o Lwybrau Antur Bywyd Gwyllt mewn rhai parciau a gwarchodfeydd natur ledled y ddinas.

Mae cyfres o byst wedi'u gosod ar hyd a lled y parciau gyda phlaciau metel yn dangos y bywyd gwyllt y gellir ei weld yn yr ardal honno. Gellir defnyddio'r placiau hyn i greu rhwbiadau yn llyfrynnau'r Llwybrau Antur Bywyd Gwyllt.

Mae'r rhain yn hwyl i'r plant, felly os ydych chi'n edrych am syniadau gwych i gael ychydig o awyr iach dros wyliau'r haf, ac i ddysgu mwy am fywyd gwyllt ar yr un pryd, beth am lawrlwytho taflenni'r llwybr o'n gwefan yn www.caerdydd.gov.uk/bioamrywiaeth, neu cysylltwch â ni drwy e-bostio bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk er mwyn i ni eu hanfon atoch.

Byddaf yn ôl fis nesaf gyda rhagor o atyniadau bioamrywiaeth.

Lansio Hyb Cyngor Tŷ Marland yn swyddogol

MAE'R Aelod Cabinet dros Gymunedau, Tai a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Cynghorydd Lynda Thorne, wedi lansio Hyb Cyngor Tŷ Marland yn swyddogol.

Mae'r hyb newydd wedi'i staffio gan nifer o ymgynghorwyr y Cyngor sydd ar gael i helpu pobl ag amrywiaeth o ymholiadau, yn amrywio o gyllid, budd-daliadau, tai, y Dreth Gyngor a phroblemau defnyddwyr i broblemau y gallant fod yn eu cael a'u biliau nwy a thrydan.

Mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth a Chymdeithas Flaengar y Somaliaid hefyd wedi'u lleoli'n barhaol yn yr hyb newydd, gyda chynrychiolwyr o'r Undeb Gredyd, Awyddus i Weithio, Shelter a llawer o sefydliadau eraill ar gael i gynnig help a chymorth.

Dywedodd y Cynghorydd Thorne: "Mae'n fraint cael agor yr Hyb Cyngor newydd yn Nhŷ Marland a fydd yn gweithredu fel lle pwysig i bobl y mae angen cymorth arnynt. Mae'n bwysig iawn i'r Cyngor wneud popeth yn ei allu i helpu pobl sy'n wynebu anawsterau, gan gynnwys y rheini yr effeithir arnynt gan Raglen Diwygio Lles y Llywodraeth."

• Mae'r gwasanaeth newydd ar gael ar lawr cyntaf Tŷ Marland (ger yr orsaf fysiau). Oriau agor: Llun – Mercher 8:45am – 5pm. Iau 10am – 6.30pm. Gwener 8.45am – 5pm.

• Y Cyng Lynda Thorne (canol) gyda staff Hyb Cynghori Tŷ Marland.

Chwa o fywyd newydd i Dir Hamdden Tredelerch

CAFWYD project adnewyddu trawiadol a chyffrous ar Dir Hamdden Tredelerch, gan ddod â chwa o fywyd newydd i'r man agored poblogaidd.

Roedd yn bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Parciau'r Cyngor, Vision 21 a Gwasanaeth Prawf Cymru gydag ardal chwarae gyfoes newydd sbon.

Mae'r ardal chwarae wedi cael budd o fuddsoddiad £50,000 drwy Raglen Cyfalaf y Cyngor. Fel rhan o'r gwaith crëwyd dwy ardal ar wahân i blant a gosodwyd offer newydd gan gynnwys sleid, dwy set o siglenni, dwy uned chwarae ac eitem sy'n cynnig syrffio ffug. Bydd hefyd arwyneb a graffeg newydd.

Vision 21 fu'n gyfrifol am adnewyddu celfi'r parc, gan adfer y meinciau, ac mae Gwasanaeth Prawf Cymru wedi adnewyddu'r rheiliau ar y safle, gan gynnwys eu sandio a'u peintio.

Mae'r ddau sefydliad wedi ffurfio partneriaeth unigryw â Gwasanaethau Parc Cyngor Caerdydd ac wrth wneud hynny cwblhawyd nifer o brojectau gan gynnwys y gwaith ar Dir Hamdden Tredelerch.

Dywedodd Phil Martin, Rheolwr y Tîm Gwneud Iawn â'r Gymuned yng Ngwasanaeth Prawf Cymru: "Rydym wrth ein bodd y gallwn gefnogi Cyngor Caerdydd gyda'r gwaith o adnewyddu Tir Hamdden Tredelerch.

"Mae gwaith Gwneud Iawn â'r Gymuned yn heriol ond hefyd yn werth chweil. Mae'r troseddwyr sy'n gweithio ar y project hwn yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, a hefyd yn dysgu sgiliau newydd ac yn gwella eu cyfle o gael swydd. Gobeithio y gall y gymuned leol hefyd fwynhau'r parc a'r cyfleusterau newydd am flynyddoedd maith."

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Huw Thomas: "Mae trigolion lleol ac ymwelwyr yn trysori Tir Hamdden Tredelerch a bydd y project adnewyddu newydd hwn yn rhoi man i'r gymuned leol ymfalchïo ynddo hyd yn oed yn fwy.

"Mae'r partneriaethau a ffurfiwyd gyda Vision 21 a Gwasanaeth Prawf Cymru wedi galluogi gwaith allweddol i gael ei gyflawni a fydd o fudd i fannau gwyrddion Caerdydd, ond a fydd hefyd yn gyfle i bobl brofi ein parciau gwych a dysgu amdanynt.

"Mae projectau partneriaeth fel hyn yn helpu'r Cyngor i gynnal y mannau agored gwerthfawr hyn y gall pawb o bob oedran eu mwynhau am flynyddoedd maith ac rydym yn ddiolchgar am waith caled pawb a gyfrannodd."

• John Taylor o'r Gwasanaeth Prawf gyda Ryan Hill (uchod). Plant o Ysgol Gynradd Bryn Hafod yn y maes chwarae newydd (gwaelod).

Dewch am dro ar hyd y Llwybr Canmlwyddiant

MAE'R daith gerdded boblogaidd, y Llwybr Canmlwyddiant, wedi'i hailwampio er mwyn ychwanegu gwybodaeth am newidiadau i'r ddinas dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae codau QR hefyd wedi cael eu gosod ar y Llwybr er mwyn i bobl allu lawrlwytho manylion y daith a darllen amdani o bell.

Mae'r daith gerdded, sy'n fwy na dwy filltir o hyd, yn teithio heibio i rai o dirnodau'r ddinas gan gynnwys Stadiwm y Mileniwm a Neuadd y Ddinas. Agorwyd y llwybr yn 2005 i ddathlu canmlwyddiant Caerdydd fel dinas.

Gallwch weld yr arwyddion â'r Codau QR arnynt ledled y ddinas mewn lleoliadau eiconig amrywiol gan gynnwys yr Hen Lyfrgell, Marchnad Caerdydd, Stadiwm y Mileniwm a Chastell Caerdydd ymhlith lleoedd eraill. Drwy ddefnyddio'r codau, gall pobl yng Nghaerdydd fentro ar y Llwybr Canmlwyddiant o unrhyw le yn y ddinas, ac mae copïau caled o'r llwybr ar ei newydd wedd ar gael o hyd o'r Ganolfan Croeso ar yr Aes.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Huw Thomas: "Mae'r Llwybr Canmlwyddiant yn boblogaidd gydag ymwelwyr a thrigolion y ddinas, felly mae'n bwysig sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf a defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf fel y gall pawb ddefnyddio'r llwybr yn hwylus.

"Mae Caerdydd yn ddinas wych i fyw ynddi ac mae'n newid drwy'r amser felly mae'n bwysig cofnodi'r newidiadau hyn a sicrhau bod defnyddwyr y Llwybr Canmlwyddiant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf."

• Y Cyng Huw Thomas (chwith) yn dangos cod QR gyda staff y Ganolfan Croeso, Rhys Watkins a Sarah Forrest.

• I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.caerdydd.gov.uk/llwybrcanmlwyddiantcaerdydd

Newyddion yn gryno

Ysgol Gynradd Baden Powell yn ennill gwobr

CYDNABUWYD ysgol gynradd yng Nghaerdydd gan gynllun achredu cenedlaethol a sefydlwyd i gydnabod y gwaith a wna ysgolion a lleolidau eraill gyda threuluoedd i gyflawni canlyniadau gwell i ddisgyblion.

Mae Ysgol Gynradd Baden Powell yn Sblot wedi bod yn gweithio at ennill y wobr ers mis Medi ac mae'n un o'r ysgolion cyntaf yng Nghaerdydd i gyflawni nod Buddsoddwyr mewn Teuluoedd am y gwaith a wna i gynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol. Mae project Rhieni mewn Partneriaeth yr ysgol yn sicrhau bod gan bob rhiant gyfle i gyfrannu at ddysgu ac addysg eu plant, ac mae'n cydnabod y dylai ysgolion a theuluoedd gydweithio er budd llawn y plentyn.

Rhywbeth i gnoi cil arno

MAE plant a staff Ysgol Gynradd Sant Cuthbert wedi bod yn casglu bwyd i'w roi i'r newynog.

Rhoddwyd y bwyd i'r Banc Bwyd sy'n cynnig bwyd maethlon a chytbwys mewn argyfwng i helpu pobl nad ydynt yn gallu bwydo eu hunain na'u teuluoedd.

Y Banc Bwyd yw elusen newydd yr Arglwydd Faer. Mae'n dibynnu'n llwyr ar ysgolion, elusennau, eglwysi a sefydliadau eraill i roi bwyd, ac roedd plant a staff Ysgol Sant Cuthbert yn falch o fod wedi cyfrannu'n fawr at gasglu bwyd at achos mor deilwng.

Eich ardal - Canol Caerdydd

Bob mis bydd Llais y Ddinas yn canolbwyntio ar ardal wahanol o'r ddinas.

Adamsdown

Manzoor Ahmed
07850 743 355
Manzoor.Ahmed@caerdydd.gov.uk

Nigel Howells
2046 5233
nhowells@caerdydd.gov.uk

Cathays

Christopher Weaver
2039 7149
Christopher.Weaver@caerdydd.gov.uk

Elizabeth Clark
2063 0311
eclark@caerdydd.gov.uk

Sam Knight
07539685806
Sam.Knight@caerdydd.gov.uk

Sarah Merry
2087 2020
Sarah.Merry@caerdydd.gov.uk

Cyncoed

David Rees
2075 0310
davrees@caerdydd.gov.uk

Kate Lloyd
2075 3710
klloyd@caerdydd.gov.uk

Dod o hyd i'ch cyfleusterau agosaf

Margaret Jones
2075 8175
mjones@caerdydd.gov.uk

Pentwyn

Joseph Carter
2073 4659
jcarter@caerdydd.gov.uk

Judith Woodman
2054 1534
jwoodman@caerdydd.gov.uk

Keith Hyde
2073 2807
khyde@caerdydd.gov.uk

Paul Chaundy
2073 4313
pchaundy@caerdydd.gov.uk

Penylan

Bill Kelloway
2075 6886
bkelloway@caerdydd.gov.uk

Joe Boyle
07966779490
Joe.Boyle@caerdydd.gov.uk

Tricia Burfoot
2048 8796
pburfoot@caerdydd.gov.uk

Plasnewydd

Daniel De'ath
07941300058
Daniel.De'Ath@caerdydd.gov.uk

Mahommed Javed
2075 3389
MohammadJaved@caerdydd.gov.uk

Mary McGarry
2087 2020
Mary.McGarry@caerdydd.gov.uk

Sue Lent
07790962764
Sue.Lent@caerdydd.gov.uk

NEUADD GYMUNEDOL

Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Pen-y-lan
Penylan Road
2078 8400
penylancommunitycentre@caerdydd.gov.uk

Neuadd Gymunedol Plasnewydd
Shakespeare Street
2048 0739
plasnewyddcommunityhall@caerdydd.gov.uk

CANOLFAN DDYDD

Canolfan Ddydd Llanedern
Y Faelfa
2073 2533

SWYDDFA TAI

Swyddfa Tai Rhanbarth y Gogledd (Llanedern, Pentwyn)
Canolfan Siopa Maelfa, Llanedern
2053 7111
YmholiadauTai@caerdydd.gov.uk

CANOLFAN HAMDDEN

Canolfan Hamdden Pentwyn
Bryn Celyn Road
2054 9211
PentwynLeisureCentre@caerdydd.gov.uk

DYSGU YN Y GYMDOGAETH

Canolfan Dysgu yn y Gymdogaeth Cathays
Ysgol Uwchradd Cathays, Ffordd y Goron
2069 2044
cathaysac@caerdydd.gov.uk

Canolfan Dysgu yn y Gymdogaeth Y Brodordy
Y Brodordy
2022 7472/3
friaryac@caerdydd.gov.uk

Canolfan Howardian
Hammond Way, Pen-y-lan
2043 2700
Howardianac@caerdydd.gov.uk

CLWB IEUENCTID

Clwb Ieuenctid Cathays
Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Cathays, Cathays Terrace
2037 3144

Project Ieuenctid Canol y Ddinas/Grassroots
58 Heol Charles
2023 1700

Clwb Gweithgareddau Ieuenctid Howardian
Hammond Way, Pen-y-lan
2048 3681

Clwb Ieuenctid Llanedern
The Powerhouse, Round Wood, Pen-y-lan 2054 9650

Clwb Ieuenctid Pentwyn
Canolfan Gymunedol Pentwyn, Brynheulog, Pentwyn
2054 1409 / 2054 9033

Agor popty gyda gwahaniaeth

GALL arogl pobi bara ffres dynnu dŵr o'r dannedd a hyd yn oed werthu tŷ, yn ôl hen chwedl.

Ond i fyfyrwyr a staff Ysgol Uwchradd Cathays, mae'r arogl wedi dod yn un cyfarwydd yng nghoridorau'r ysgol, gan fod Y Popty ar agor ar gyfer busnes bob yn ail ddydd Iau.

Bu tri o fyfyrwyr Blwyddyn 12 sydd â Chyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth – sef Jacob Meighhan, Markos Arakas a Mike Munro – yn cynyddu nifer eu cleientiaid yn raddol ers dechrau'r project lle maent yn paratoi, yn pobi ac yn cyflenwi eu cynnych eu hunain.

Mae'r tri myfyriwr yn treulio pob sesiwn Popty yn paratoi'r holl fara â llaw, a gallant bobi hyd at 24 torth a 40 rhôl mewn un sesiwn. Mae torthau grawn cyflawn, torthau gwyn wedi'u plethu a thorthau gwaelod ar gael, a'r cynnyrch mwyaf poblogaidd yw'r rhôl ciabatta olewydd. Dechreuodd y project ar raddfa fach wrth i'r myfyrwyr bobi bara ar gyfer eu rhieni, ond erbyn hyn gall staff ysgol Cathays osod archebion a chael eu bara ffres yn yr ysgol.

Drwy waith caled Jacob, Markos a Mike, codwyd bron £200 yn y Popty dros dymor yr hydref er budd Llamau a Phroject Teuluoedd Barnardo's yn Nhrelái. A chodwyd £130 arall ar ddydd Gŵyl Dewi er budd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wrth i'r pobwyr ifanc gynhyrchu 50 o becynnau cinio ar gyfer staff yn cynnwys rholiau a bara brith.

Mae staff Ysgol Uwchradd Cathays wedi rhoi eu sêl bendith i'r Popty. Dywedodd y Cynorthwy-ydd Addysgu Jen Hall: "Mae'r bara yn flasus iawn ac rwy'n edrych ymlaen i'r rholiau ciabatta bob pythefnos, ac mae fy nheulu yn edrych ymlaen atynt hefyd."

Ychwanegodd y Cynorthwy-ydd Addysgu Keely Desmond: "Mae'n wych cael prynu bara poeth, ffres a blasus a bobwyd y bore hwnnw a'i fwyta i ginio."

• Myfyrwyr Jacob Meighhan, Markos Arakas a Mike Munro yn y gegin.

Ar eich beic am Ŵyl Seiclo gyffrous arall yng Nghaerdydd

BYDD Gŵyl Seiclo Caerdydd yn dychwelyd ym mis Mehefin ar gyfer pythefnos o ddathlu popeth sy'n dda am deithio ar ddwy olwyn ac annog mwy o bobl i fabwysiadu'r dull teithio iachus a chynaliadwy hwn.

Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, disgwylir i'r ŵyl fod yn fwy ac yn well nag erioed gyda thoreth o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ledled y ddinas rhwng 15-30 Mehefin. O bobl sy'n beicio'n rheolaidd i'r rheini sy'n beicio'n achlysurol er mwynhad, bydd rhywbeth at ddant pawb yn yr ŵyl wrth iddi geisio helpu pobl i ddarganfod faint o hwyl yw beicio.

Mae Barry Sullivan wrth ei fodd yn beicio o amgylch Caerdydd. Yn hanu o Efrog Newydd yn wreiddiol, bu Barry'n byw yng Nghaerdydd ers wyth mlynedd. Dair blynedd yn ôl penderfynodd roi'r gorau i ddefnyddio car y teulu gan brynu pedwar beic yn ei le.

Eglura Barry "Roedd costau blynyddol modura yn cynyddu, ac wrth feddwl am y mathau o deithiau roeddem yn eu gwneud, yr ateb amlwg ac ymarferol oedd i fynd ar fy meic. Rwyf wedi ymweld ag Amsterdam a chefais fy ysbrydoli gan y nifer fawr o bobl yno sy'n defnyddio beiciau i deithio o amgylch o ddydd i ddydd. Gan fy mod yn feiciwr antur brwd, roedd yn benderfyniad hawdd i ddechrau beicio bob dydd.

"Rhaid i mi gyfaddef, cymerodd hi gryn dipyn o amser i mi ddarbwyllo fy ngwraig, ond ers gwneud y penderfyniad, nid ydym yn edifar dim"

Gellir gweld Barry yn aml yn beicio o amgylch y ddinas gyda'i blant un a phump oed ar gefn ei Workcycle, sef math poblogaidd o feic a ddefnyddir yn Amsterdam.

"Rwy'n defnyddio'r beic i fynd â'm plentyn pump oed i'r ysgol a'm plentyn un oed i'r feithrinfa bob dydd, ac mae'r ddau ohonynt wrth eu bodd yn teithio ar gefn beic. Mae fy ngwraig wedi troi'n ychydig o efengylwr beicio yn ddiweddar, gan annog ei theulu a'i ffrindiau i roi'r gorau i ddefnyddio'u ceir a defnyddio dull o gymudo sy'n llawer mwy cyfleus yn ein barn ni."

Rwy'n gobeithio bydd llawer o bobl yn cael ysbrydoliaeth o weld pa mor gyfleus a hwylus yw beicio i'm teulu."

Mae Barry o'r farn bod digwyddiadau fel Gŵyl Seiclo Caerdydd yn bwysig gan eu bod yn helpu i newid agweddau pobl tuag at feicio, yn ogystal â helpu i hybu beicio.

"Mae unrhyw beth sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn hybu beicio yn beth da. Dros y tair blynedd ddiwethaf rwyf wedi gweld newid o ran agweddau tuag at feicio yn y ddinas, ac mae llawer mwy o feiciau i'w gweld ar y ffyrdd erbyn hyn. Ymddengys i mi fod pobl yn dechrau sylweddoli bod manteision ariannol a manteision o ran iechyd a chynaliadwyedd yn deillio o feicio."

Ymhlith y nifer o ddigwyddiadau amrywiol a gynhelir yn ystod yr ŵyl sy'n para pythefnos bydd rasys adeiladu beiciau, sesiynau Dr Beic, hyfforddiant beicio, ciniawau beicio, teithiau beicio a llawer mwy. Bydd gan yr ŵyl bencadlys eleni hefyd yn yr Arcêd Brenhinol lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau a chymryd rhan yn ein cystadleuaeth gelf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth, y Cynghorydd Ralph Cook: "Mae Gŵyl Seiclo Caerdydd yn ddigwyddiad hwyliog, llawn gwybodaeth sy'n ceisio annog pobl i ddechrau beicio. Fel mae Barry a'i deulu wedi dangos, mae beicio yn ddewis dichonadwy ar gyfer teithio o amgylch y ddinas, a bydd pethau'n parhau i wella o hyd gan fod y Cyngor yn ymrwymedig i Enfys – sef ein cynllun strategol i wella'r seilwaith beicio".

Gellir cael rhagor o fanylion am yr ŵyl seiclo yn http://www.cardiffcyclefestival.co.uk/?lang=cy

• Barry Sullivan yn paratoi at Ŵyl Seiclo Caerdydd eleni.

Mae Stori Caerdydd eisiau eich telegramau chi

MAE Amgueddfa Stori Caerdydd yn cydweithio ag Amgueddfa Wyddoniaeth Llundain ar broject i ddod o hyd i delegramau difyr a gwahanol.

Mae'r Amgueddfa Wyddoniaeth yn agor oriel newydd sbon yn 2014 fydd yn cynnwys eitemau'n ymwneud â chyfathrebu. Dan yr enw, Information Age, bydd yr oriel yn dathlu datblygiadau pwysig y maes yn ystod y 200 mlynedd ddiwethaf.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r oriel, mae'r Amgueddfa'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a gwirfoddolwyr ledled y DU i gasglu enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o'r ffyrdd y mae digwyddiadau pwysig ym maes cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth wedi effeithio ar bobl.

Dewiswyd Amgueddfa Stori Caerdydd fel cynrychiolydd Cymru ac mae ar ein gwirfoddolwyr angen eich help chi i ddod o hyd i delegramau a anfonwyd i, neu o, Gaerdydd.

Cyn cyflwyno gwasanaethau ffôn pellter hir, telegramau oedd yr unig ffordd o gyfleu gwybodaeth yn gyflym iawn dros bellterau hir iawn. Roedden nhw'n ddelfrydol fel ffordd o hysbysu teuluoedd a ffrindiau, gartref a thramor, am ddigwyddiadau pwysig – fel genedigaethau, priodasau a marwolaethau. Roedden nhw hefyd yn cael eu defnyddio gan bartneriaethau busnes ar draws yr Iwerydd, ac i drosglwyddo gwybodaeth am newyddion cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn debyg iawn i Twitter, y wefan rhwydweithio cymdeithasol boblogaidd, dim ond ychydig o wybodaeth y gellid ei chyfleu drwy delegramau, ac roedd yn rhaid adrodd stori gan ddefnyddio nifer fach o nodau. Golygai hyn fod telegramau yn bethau arbennig iawn, oedd yn cynnwys craidd y newyddion pwysig. Roedd derbyn telegram yn brofiad cyffrous, trasig weithiau, ac roedd yn dod â'r teulu cyfan at ei gilydd.

Bydd arddangosfa'r Amgueddfa Wyddoniaeth yn olrhain datblygiad y telegram, o'r dyddiau cynnar pan ddefnyddiwyd y Cod Morse, i'r telegram trydan, a ddefnyddiwyd gyntaf gan Reilffordd y Great Western ym 1845 i ddal rhywun a ddrwgdybiwyd o fod yn llofrudd.

Daeth telegramau cyfarch (telegram safonol wedi ei ddarlunio) yn boblogaidd yn hwyrach, pan gyflwynwyd nhw yn y 1930au. Fe'u defnyddiwyd hefyd yn ystod y ddau Ryfel Byd.

Mae'n gwirfoddolwyr ni yn Amgueddfa Stori Caerdydd yn chwilio am delegramau sy'n cofnodi digwyddiadau personol a lleol â chysylltiad â Chaerdydd. Efallai eich bod chi wedi derbyn telegram ar achlysur arbennig neu fod gennych un sydd â chyswllt â digwyddiad pwysig yng Nghaerdydd, fel ennill cwpan FA ym 1927. Os oes gennych chi hen delegram yn rhywle yn yr atig, neu dan y grisiau neu mewn hen focs esgidiau, ag ynddo stori ddifyr, byddai ein gwirfoddolwyr yn falch iawn o gael clywed oddi wrthych.

• Os ydych chi am rannu telegramau gyda ni, dewch i'r diwrnod agored yn Amgueddfa Stori Caerdydd ddydd Sadwrn 13 Gorffennaf. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Telegramau ar 029 2078 8208 neu storicaerdydd@caerdydd.gov.uk

Dewch i ddweud eich dweud! Hyb Cymunedol Trelái / Caerau

MAE Cyngor Caerdydd yn ystyried opsiynau ar gyfer Hyb Cymunedol newydd yn Nhrelái / Caerau a hoffem glywed eich barn chi ar ba wasanaethau a gweithgareddau y dylid eu cynnig yno.

Mae'r rhaglen hybiau yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi mewn cyfleusterau yn y gymdogaeth a gwella gwasanaethau cwsmeriaid wyneb yn wyneb.

Nod y project Hybiau Cymunedol yw cynnig gwasanaethau a gweithgareddau o dan un to a fydd yn cynnig gwasanaethau cost effeithiol o ansawdd yn y dyfodol.

Dewch draw i'r sesiynau galw heibio a nodir isod i drafod eich safbwyntiau gyda staff y Cyngor ac i gwblhau arolwg ynghylch pa wasanaethau y byddech chi a'ch teulu yn eu defnyddio.

Os nad ydych yn gallu dod i'r sesiynau galw heibio gallwch ddweud eich dweud drwy lenwi'r arolwg ar-lein yn www.surveys.cardiff.gov.uk/elycaerauhub

Bydd yr arolwg ar gael ar-lein o 3 Mehefin. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno arolygon yw dydd Llun 15 Gorffennaf 2013.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael yr arolwg mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â: Rashmi Wilson rwlson@caerdydd .gov.uk - 029 2087 3535

Sesiwn galw heibio yn Llyfrgell Trelái

Dydd Llun, 10 Mehefin, 2:30 - 4.30pm

Dydd Iau 13 Mehefin, 10am - 12pm

Dydd Sadwrn 15 Mehefin, 2:30 - 4:30pm

Canolfan Hamdden y Gorllewin

Dydd Mawrth 18 Mehefin, 6pm-8pm

Dydd Mercher 19 Mehefin, 10am -12pm

Dydd Sadwrn 22 Mehefin, 11am - 3pm

Sesiwn galw heibio yng Nghanolfan Jasmine

Dydd Mawrth, 11 Mehefin, 10am - 12pm

Dydd Mercher 12 Mehefin, 1 – 3pm

Dydd Llun, 17 Mehefin, 10am - 12pm

Dusty Forge

Dydd Iau 20 Mehefin, 10am - 12pm

Dydd Mawrth 25 Mehefin, 1 - 3pm

Dydd Iau 7 Mehefin, 10am - 12pm

Newyddion yn gryno

Cofiwch roi cynnig ar gystadleuaeth Caerdydd yn ei Blodau

YDY eich gardd yn blodeuo eisoes? Neu a yw ar fin blodeuo? Os felly mae'n bryd i chi roi cynnig ar gystadleuaeth Caerdydd yn ei Blodau, ac mae'r dyddiad cau yn dod yn fuan – 5 Gorffennaf..

Os ydych am gymryd rhan yng nghystadleuaeth Caerdydd yn ei Blodau eleni, caiff eich ymdrechion eu gwobrwyo mewn ffordd ychydig yn wahanol. Yn hytrach na dim ond gwobr gyntaf ac ail wobr ym mhob dosbarth, bydd pawb sy'n sgorio dros 50 o farciau yn cael medal, naill ai Efydd, Arian, Arian Goreurog neu Aur. Byddwch yn gwybod pa mor dda yw eich gardd, ac yn gwybod lle i wella ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae dosbarth ar gyfer Dechreuwyr hefyd, felly os ydych yn arddwr newydd, mae lle i chi yn y gystadleuaeth, er mwyn dechrau arni'n araf deg.

I weld manylion llawn y newidiadau eleni, y rhestr o ddosbarthiadau'r gystadleuaeth a'r ffurflen ymgeisio, ewch i www.caerdydd.gov.uk/blodau neu ffoniwch 02929 684000.

Adroddiad arolygu yn rhoi clod i Ysgol Uwchradd Cathays

DYFARNWYD bod Ysgol Uwchradd Cathays yn ysgol dda gyda rhagolygon da ar gyfer gwella, yn ôl yr adroddiad ar arolwg diweddaraf Estyn.

Mae'r adroddiad yn amlygu perfformiad cadarn yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4, ymagweddau'r disgyblion tuag at gymuned yr ysgol ac ymdrechion athrawon i sicrhau amgylchedau dysgu cadarnhaol mewn gwersi.

Dywedodd y Pennaeth, Rod Phillips: "Rwyf wrth fy modd fod Estyn wedi ailgadarnhau'r dyfarniad a wnaed yn yr arolwg blaenorol yn 2007, sef ein bod yn ysgol dda. Mae hyn yn dyst i ymroddiad, gwaith caled ac ymrwymiad ein staff, myfyrwyr, rhieni a llywodraethwyr presennol, ac yn y gorffennol dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn parhau i fod yn ysgol wirioneddol gynhwysol sy'n ymroddedig i ddarparu cyfleoedd i bawb."

Neidio Noddedig

MAE disgyblion a staff Ysgol Gynradd Gabalfa wrth eu bodd ar ôl codi bron £1,000 er budd Ysbyty Felindre.

Cododd plant o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6 ac athrawon £944 er budd yr ysbyty lleol mewn digwyddiad neidio noddedig ar castell neidio yn neuadd yr ysgol.

Canolfan Hamdden y Gorllewin yn ennill Dyfarniad Iach

MAE Canolfan Hamdden y Gorllewin wedi cyflawni dyfarniad aur yn y Cynllun Gwobr Dewisiadau Iach.

Nod y cynllun yw gwobrwyo arlwywyr sy'n ei gwneud yn haws i'w cwsmeriaid ddewis bwydydd iach.

Nod y dyfarniad yw annog busnesau bwyd i gynnig dewisiadau iachach i gwsmeriaid drwy ddefnyddio arferion arlwyo iachach, cynnig mwy o ffrwythau, llysiau a charbohydradau startshlyd, yn ogystal â llai o fraster, yn enwedig braster dirlawn, siwgr a halen. Mae hefyd yn cydnabod darparu dewisiadau iach i blant, gwobrwyo hyfforddiant staff, a threfniadau i hyrwyddo a marchnata dewisiadau iachach.

Ymhlith y newidiadau a wnaeth y ganolfan mae ychwanegu ffrwythau ffres a rhesins i'r fwydlen, newid mayonnaise llawn braster am un iachach, cynnig dewis o fara gwyn neu gyflawn a chynnig prydau hanner maint.

Hysbysebwyd y newidiadau newydd, nid oes diodydd pefriog ar gael wrth y cownter mwyach a gosodwyd prisiau'r fwydlen i gystadlu â siop bwyd brys leol.

Cyflawnodd Canolfan Hamdden y Tyllgoed ddyfarniad arian, a chafodd Canolfan Hamdden Llanisien ddyfarniad efydd. Cafodd y ddau gyfleuster argymhellion a byddant yn gweithio at wneud rhagor o newidiadau i gyflawni dyfarniad aur yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Huw Thomas: "Mae hwn yn gyflawniad gwych i Ganolfan Hamdden y Gorllewin a'r staff sydd wedi gweithio gyda Thîm Gwella Iechyd Cyngor Caerdydd i wneud newidiadau sydd o fudd i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r cyfleuster.

"Mae deiet cytbwys a maethlon yn ategu ffitrwydd ac ymarfer corff felly mae newidiadau'n cael eu gwneud ym mhob un o'n canolfannau hamdden i sicrhau ein bod yn cynnig ac yn hyrwyddo bwyta'n iach ymhlith ein cwsmeriaid. Mae hyn yn dilyn canllawiau GIG Cymru ar fwyta'n iachach ac yn helpu i annog pobl i wneud dewisiadau iachach."

• Kathryne Jones, sy'n gweithio yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed, â bwyd blasus.

Cydweithredu'n hwyl mewn gŵyl

BYDD cyfle i chi gael diwrnod cyfan o hwyl am ddim yn yr Ŵyl Gydweithredol.

Ynddi, bydd nifer o weithgareddau'n hyrwyddo'r model busnes cydweithredol. Bydd yn cael ei chynnal yn nhiroedd Stadiwm SWALEC ddydd Sadwrn 29 Mehefin (9am tan 6pm) a dydd Sul 30 Mehefin (9am-4pm).

Bydd y gweithgareddau'n cynnwys cyfle i flasu bwydydd gwahanol, arddangosiad coginio gan ddefnyddio cynnyrch cydweithredol a masnach deg, a gemau a gweithgareddau i blant.

Bydd yno hefyd weithdai a thrafodaethau ar arferion busnes moesegol a llwyddiant siopau, tafarnau a chlybiau chwaraeon cymunedol hyd yn oed.

Bydd cyflenwyr yno'n gwerthu cynnyrch cydweithredol, yn cynnwys bwyd a dillad, a gall pobl hefyd fwynhau cerddoriaeth ac adloniant gyda gemau a gweithgareddau i gadw'r plant yn brysur.

Ochr yn ochr â hyn i gyd, cynhelir cynhadledd arbennig yn ystyried 'Y Busnes Cydweithredol' a'r cyd-destun y mae busnesau o'r fath yn gweithio ynddo. Trafodir hefyd waith Comisiwn Cydweithredol a Chydfuddiannol Llywodraeth Cymru a bydd Chuka Umunna AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau yr Wrthblaid, yn trafod effaith genedlaethol busnesau cydweithredol.

Dywedodd Ed Mayo, Ysgrifennydd Cyffredinol Co-operatives UK, sef trefnwyr yr ŵyl: "Rydyn ni wrth ein bodd yn dod i Gaerdydd ac yn ymfalchïo yn y ffaith fod lleoliad y gynhadledd, Stadiwm SWALEC, ei hun yn un cydweithredol. Rydyn ni am greu amgylchedd hwyliog i ymwelwyr a fydd hefyd yn gwneud iddyn nhw feddwl, a rhoi cyfle iddyn nhw ddysgu mwy am y gwaith mae busnesau Cydweithredol yn ei wneud.

Ychwanegodd: "Mae ein Cyngres wrth galon ymgyrch genedlaethol y mudiad cydweithredol, y Pythefnos Cydweithredol - a Chaerdydd yw'n digwyddiad cyhoeddus pwysicaf."

• Ceir rhagor o wybodaeth yn www.uk.coop/congress/festival

• Disgyblion yn yr Ŵyl Gydweithredol

Gwaith ailddatblygu gwerth £20m yng Nghanolfan Siopa Maelfa

MAE cynllun ailddatblygu gwerth miliynau o bunnoedd i Ganolfan Siopa Maelfa yn Llanedern gam yn nes, gyda chwmni datblygu wedi'i ddewis i gyflawni'r project.

Mae Cyngor Caerdydd wedi penodi Partneriaeth Adfywio Maelfa fel y datblygwr a ffefrir yn dilyn hysbyseb genedlaethol yn gwahodd tendrau ar gyfer y gwaith ailddatblygu cyffrous hwn gwerth £20m.

Arweinir Partneriaeth Adfywio Maelfa gan Bouygues Development, sydd wedi ymuno â Chymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd, Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Persimmon Homes, Leadbitter, a'r penseiri Austin Smith Lord. Mae Bouygues Development a Leadbitter yn rhan o grŵp Adeiladu Bouygues.

Bydd y cynllun yn cynnwys dymchwel y ganolfan siopa hen ffasiwn bresennol a chodi siopau, cartrefi a chyfleusterau cymunedol newydd gan gynnwys llyfrgell newydd a hyb cymunedol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, Tai a Chyfiawnder Cymdeithasol, y Cynghorydd Lynda Thorne: "Rwy'n falch bod cwmni â phrofiad, arbenigedd ac enw da Bouygues Development wedi'u dewis i ddatblygu'r cynllun adfywio pwysig hwn. Bydd y project yn creu canolfan newydd sbon i'r gymuned ac yn darparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni."

Dywedodd Nicolas Guérin, Rheolwr Gyfarwyddwr Bouygues Development: "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi sicrhau'r cyfle hwn i weithio gyda'r gymuned leol yn Llanedern a Chyngor Caerdydd i gyflawni'r gwaith adfywio hirddisgwyliedig hwn. Rydym wedi ffurfio tîm o'r radd flaenaf i sicrhau y gallwn ddatblygu canolfan fywiog newydd ym Maelfa."

Bydd Cyngor Caerdydd yn mynd ati i lunio'r telerau cyfreithiol terfynol â Bouygues Development fel y gall barhau â'r gwaith cynllunio manwl. Gallai'r gwaith ddechrau flwyddyn nesaf os rhoddir caniatâd cynllunio.

Chwaraeon y Ddinas...

Digwyddiad arall i chi gan Gyngor Caerdydd www.caerdydd.gov.uk neu ffoniwch C2C ar 2087 2088

Gôl Orau'r Tymor gan Waite

ENILLODD Thomas Waite, sy'n chwarae i dîm Syndrom Down CPD Caerdydd, wobr Gôl Clwb y Tymor am chwip o ergyd a sgoriodd yn erbyn Moorside Rangers, Manceinion.

Curodd gystadleuaeth gref gan Danielle Broadhurst o dîm y merched a Craig Conway o'r tîm cyntaf. Gôl Craig sicrhaodd y bencampwriaeth i Gaerdydd.

Bwriodd 650 o westeion eu pleidlais mewn cinio arbennig i ddathlu llwyddiant diweddar Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Daeth Thomas i'r brig gyda mwyafrif o dros 200 o bleidleisiau ac enillodd y wobr a chydnabyddiaeth gan gymuned eang y clwb.

Chwaraeodd Thomas ran enfawr yn llwyddiant y tîm pêl-droed Syndrom Down eleni. Fe'i hetholwyd yn chwaraewr y bencampwriaeth, a sgoriodd 11 o golau yng ngŵyl Uwchgynghrair DSActive yn West Bromwich fis Mawrth. Drwy ei berfformiad a'i arweinyddiaeth ymroddgar i'r tîm gydol y flwyddyn, mae'n llawn haeddu gwobr mor glodwiw.

Dywedodd Chris McDermott sy'n arwain y rhaglen pêl-droed anabledd yn CPD Caerdydd: "Rwyf wrth fy modd dros Thomas. Mae'n haeddu'r wobr hon, nid yn unig am gôl wych, ond ei gyfraniad dros dair blynedd ers sefydlu ein tîm DSActive. Dyma wobr i bawb sy'n rhan o'r ddarpariaeth pêl-droed anabledd yng Nghaerdydd, oherwydd heb eu help, ni fyddai cyflawniadau ar y raddfa hon yn bosibl."

I weld goliau gorau'r tymor ewch i http://m.youtube.com/watch?v=-d9dkJjmV6w

• Os hoffech ddysgu mwy am dîm DSActive, pryd maen nhw'n hyfforddi a sut i gymryd rhan, cysylltwch ag arweinydd y project, Chris McDermott, i gael rhagor o wybodaeth. Os hoffech wybodaeth am y rhaglen anabledd ehangach, cysylltwch â Chris drwy ffonio 07580434534 neu e-bostio disability.football@cardiffcityfc.co.uk

• Cyfarwyddwr CPD Caerdydd Steve Borley â Thomas Waite

Gwerth £1,000 o docynnau Twenty20 i'w hennill

MAE criced Twenty20 yn dychwelyd i Gaerdydd fis nesaf gyda Morgannwg yn chwarae yn erbyn y Warwickshire Bears dan lifoleuadau Stadiwm SWALEC ar 3 Gorffennaf.

Bydd pump o ddarllenwyr lwcus Llais y Ddinas yn cael cyfle i sicrhau eu lle gyda ffrind i weld y tîm yn chwarae eleni gyda thocynnau am ddim ar gyfer pob un o gemau cartref Morgannwg.

Mae gan Forgannwg gemau cartref ar nosweithiau Gwener yn erbyn Gwlad yr Haf (12 Gorffennaf) a'r Northants Steelbacks (26 Gorffennaf), gyda gemau yn erbyn Worcestershire Royals (23 Gorffennaf) a Swydd Gaerloyw (30 Gorffennaf) wedi'u trefnu y naill ochr i'r gêm yn erbyn Northants, bydd Morgannwg wedi chwarae tair gêm mewn saith diwrnod erbyn diwedd y gemau grŵp.

Bydd yr haf yn llawn criced o'r safon uchaf, gyda Thlws Pencampwyr ICC yn dod i Gaerdydd, 11eg tymor Twenty20, ac ymweliad Awstralia â phrifddinas Cymru i chwarae Gêm Ryngwladol Un Diwrnod yn dilyn Cyfres y Lludw.

Yn 2013 mae Morgannwg yn dathlu 125 mlynedd ers ei sefydlu ac, i ddathlu 20 mlynedd ers ennill y Gynghrair Sul am y tro cyntaf gyda chwaraewyr fel Viv Richards, Matthew Maynard a Hugh Morris yn eu plith, bydd y tîm yn gwisgo'r cit glas a melyn retro o 1993 unwaith eto.

Os enillwch bâr o docynnau, cewch chi a'ch ffrind gyfle i fynd i gartref criced Cymru i weld adloniant o'r radd flaenaf wrth i rai o dimau gorau'r byd fynd benben â'i gilydd.

Mae criced Twenty20 yn enwog am ei adloniant cyffrous ac eleni, gyda'r holl gemau'n cychwyn am 6.30pm dan lifoleuadau, bydd yr awyrgylch yn arbennig.

I roi cynnig ar y gystadleuaeth, atebwch y cwestiwn canlynol: "Ble cafodd Diwrnod Olaf Twenty20 Friends Life ei gynnal y llynedd?"

Anfonwch eich ateb a'ch enw llawn, eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn i:

Llais y Ddinas, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

Telerau ac Amodau

Dim ond unwaith y gall pawb gystadlu. Rhaid i enillwyr fod yn 16 oed neu'n hŷn. Hysbysir yr enillwyr erbyn 30 Mehefin fan bellaf. Bydd 5 x (1 pâr) o docynnau ar gael i bob enillydd weld pob un o'r 5 gêm gartref yng Nghaerdydd. Ni roddir ad-daliadau.

Clwb Criced Morgannwg

Gêm gyfeillgar
Dydd Mawrth, 25 Mehefin, 6.30pm
Morgannwg v XI Uwchgynghrair De Cymru

FriendsLife t20
Dydd Mercher, 3 Gorffennaf, 6.30pm
Morgannwg v Swydd Warwig

LV= Pencampwriaeth Sirol – Adran 2
Dydd Llun, 8 Gorffennaf, 11am i 11 Gorffennaf
Morgannwg v Hampshire

FriendsLife t20
Dydd Gwener, 12 Gorffennaf, 6.30pm
Morgannwg v Gwlad yr Haf

I weld yr holl gemau sy'n cael eu cynnal ledled y ddinas y mis hwn ewch i www.sport-cardiff.com Nodwch y gall amser a dyddiad gemau newid.

Archifau Morgannwg yn datgelu'r straeon buddugol

MAE Archifau Morgannwg wedi cyhoeddi pa straeon buddugol a ddewiswyd fel rhan o'r ymgyrch 'Adroddwch Eich Stori Wrthym'.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr archifau yng Nghymru gyflwyno stori am eu profiadau a'r hyn a ddysgon nhw o ganlyniad i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r cais buddugol gan y grŵp Pobl yn Gyntaf Caerdydd yn dangos bod yr Archifau yn hygyrch i bawb. Aeth aelodau Pobl yn Gyntaf Caerdydd ar ymweliad ag Archifau Morgannwg i gynnal ymchwil fel rhan o'u Project ar Ysbyty Trelái. Roedd eu stori yn sôn am sut y gwnaethant ddefnyddio gwasanaethau'r Archifau a'r dogfennau a gedwir yno. Roedd y ffotograffau a ddefnyddir i adrodd eu stori, a'r dogfennau a ddefnyddiwyd ganddynt ar gyfer eu hymchwil yn rhan o arddangosfa a gynhaliwyd ganddynt yn Amgueddfa Stori Caerdydd.

Enillydd cystadleuaeth arall oedd Steve Evans. Aeth Steve, sy'n athro yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw, ar ymweliad ag Archifau Morgannwg gyda grŵp o ddisgyblion blwyddyn 7. Roedd ei gais, ar fformat stribed comig, yn dangos sut gall yr Archifau helpu myfyrwyr i ddysgu yn ogystal â dangos i'r athrawon sut i gyflwyno'r dysgu hwn.

Ysgrifennwyd y stori fuddugol arall ar y cyd gan nifer o blant o Ysgol Gynradd Lakeside. Aethant ar ymweliad ag Archifau Morgannwg fel rhan o ddathliadau hanner canmlwyddiant yr ysgol. Mae eu cais yn dangos pa mor hygyrch yw'r Archifau i blant o bob oedran a sut y gellir eu defnyddio ar gyfer projectau ysgol penodol fel hwn.

Dywedodd Nicola Williams, Swyddog Project Marchnata ac un o'r beirniaid: "Roeddem yn falch iawn o dderbyn straeon gan amryw ddefnyddwyr ledled Cymru. Maent yn amrywio o ddatgeliadau am hanes teuluol personol a chanfyddiadau ym maes hanes lleol i straeon gan ddarlithwyr, athrawon, myfyrwyr, disgyblion a gwirfoddolwyr. Mae rhai o'r straeon yn wefreiddiol iawn, ac mae straeon eraill yn dangos sut mae'r gwasanaeth wedi'u helpu i gaffael sgiliau newydd a sbarduno diddordebau newydd. Hoffwn ddiolch i bawb am adrodd eu straeon wrthym."

Cafwyd cyfanswm o 77 o geisiadau a dewiswyd 22 stori fuddugol, gyda phob stori fuddugol yn ennill £100. Caiff rhai o'r straeon buddugol eu gwneud yn ffilmiau byr sy'n dangos y cofnodion, y ffotograffau a'r dogfennau y gellir eu gweld am ddim yn eich gwasanaeth archifau lleol.

Cyflwynwyd gwobrau'r tri phrif enillydd yn Archifau Morgannwg.

I ddysgu mwy am Archifau Morgannwg ewch i www.archifaumorgannwg.gov.uk Fel arall, ewch i archifaucymru.org neu chwiliwch am Archifau Cymru ar Facebook a Twitter.

Ffotograff gany Andrew Pearsall

• Plant Ysgol Gynradd Lakeside gyda'r cynnig buddugol.

Cefnogwyr Criced yn mwynhau Gŵyl o Griced y Byd yng Nghaerdydd

BYDD twrnamaint Tlws Pencampwyr ICC yn dod i ben dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf wrth i Gaerdydd, Llundain a Birmingham gynnal rowndiau olaf y gystadleuaeth fawreddog.

Mae wyth tîm criced undydd rhyngwladol gorau'r byd yn cystadlu'r twrnamaint, gan gynnwys rhai o chwaraewyr gorau'r byd fel Chris Gayle, Alastair Cook, MS Dhoni, Michael Clarke, Brendon McCullum, Dale Steyn a Lasith Malinga.

Rownd Gynderfynol tlws Pencampwyr ICC yw'r ffordd ddelfrydol o fwynhau criced rhyngwladol o'r radd flaenaf dros yr haf, a chyda thocynnau'n dechrau o £30 i oedolion a £5 i blant, maen nhw'n gwerthu'n gyflym!

Mae'r holl wledydd sy'n cymryd rhan yn cynnal diwrnodau cymunedol yn ystod y twrnamaint, felly mae plant o bob rhan o Dde Cymru wedi cael cyfle i gael hyfforddiant un-i-un gyda rhai o enwogion y byd criced.

At hynny, diolch i'r bartneriaeth rhwng yr ECB, Clwb Criced Morgannwg a Chwaraeon Caerdydd, cafodd plant ysgol gyfle i gymryd rhan yn y seremoni agoriadol, gan groesawu timau i'r cae a gwylio'r gemau am ddim, yn ogystal â chael dod i'r gemau am ddim a difyrru'r dorf gydag arddangosiadau criced yn ystod yr egwyl.

Drwy'r bartneriaeth hon, mae Chwaraeon Caerdydd a Chlwb Criced Morgannwg wedi bod yn buddsoddi mewn criced yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar annog mwy o blant i ymuno â chlybiau lleol a chlybiau ieuenctid.

Mae'r twrnamaint wedi cynnwys gemau gwefreiddiol, ond wrth i'r rownd gynderfynol yng Nghaerdydd nesau, mae'n bryd i gefnogwyr brynu eu tocynnau i wylio cricedwyr gorau'r byd ar y maes.

Dywedodd David Richardson, Prif Weithredwr ICC, "Mae wedi bod yn wych gweld cymaint o ddiddordeb yn y twrnamaint sy'n rhoi cyfle unigryw i gefnogwyr criced weld cricedwyr 50 pelawd gorau'r byd yn chwarae dros eu gwlad i geisio cipio Tlws Pencampwyr ICC ar gyfer 2013.

"Unwaith eto mae'r ICC yn gweithio mewn partneriaeth â ThinkWise a Room to Read i hyrwyddo pwysigrwydd ymwybyddiaeth HIV ac AIDS ac addysg plant ym mhedwar ban byd.

"Rydyn ni hefyd yn falch o groesawu Chance to Shine, menter a gefnogir gan yr ECB sy'n cael ei rhedeg gan yr Ymddiriedolaeth Griced i barhau i hyrwyddo criced a chreu cyfleoedd i'r cenedlaethau ifanc yng Nghymru a Lloegr."

• Gallwch brynu tocynnau o Swyddfa Docynnau Clwb Criced Morgannwg yn Stadiwm SWALEC neu drwy fynd i www.icc-cricket.com

• Disgyblion o Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn cael gafael ar Dlws Pencampwyr yr ICC

Gwobrau i wirfoddolwyr taclus

CYFLWYNWYD Tlws Gwobr Cymru Daclus a £250 i Ysgol Uwchradd Cathays am eu hymdrechion o ran gwneud eu hardal leol yn lle gwell i fyw ynddo.

Mae cynllun gwobrau blynyddol Cymru Daclus, a noddwyd eleni gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac a gydlynwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus, yn rhoi cydnabyddiaeth i bobl sy'n gwneud ymdrech ychwanegol i ddiogelu glendid a harddwch Cymru.

Derbyniodd yr ysgol y wobr yn y categori cymuned newydd am ei phroject "Newydd-ddyfodiaid." Mae'r project yn creu cyfleoedd i fyfyrwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf i gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol, megis ymgyrchoedd tacluso a phlannu blodau wrth wella'u sgiliau iaith ar yr un pryd. Mae'r grŵp wrthi'n trafod y ffyrdd gorau o ddefnyddio'r arian a enillwyd ar gyfer cam nesaf eu gwaith i wella'r amgylchedd.

Mynd i'r afael â baw cŵn

MAE menter i fynd i'r afael â baw cŵn ar strydoedd ac ym mharciau'r ddinas eisoes wedi cael effaith gadarnhaol yn ôl yr ystadegau.

Yn sgîl y project, sy'n bartneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, mae 42 o berchnogion ci wedi cael Dirwyon Cosb Benodedig (DCB) ers i'r cynllun ddod i rym ym mis Tachwedd 2012, o gymharu ag un y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, y Cynghorydd Ashley Govier: "Mae baw cŵn yn broblem genedlaethol sy'n wynebu nifer o awdurdodau lleol, ond mae Caerdydd wrthi'n cynyddu'r nifer o staff y Cyngor a'r Heddlu sydd ar gael i ddelio'n uniongyrchol â throseddwyr o 25 i 180.

"Bydd y cynnydd hwn yn golygu y gallwn fynd i'r afael â'r broblem mewn cymunedau heb gynyddu gwariant cyhoeddus, a gobeithio y bydd trigolion yn teimlo fel y gallant roi gwybod am ddigwyddiadau gan helpu i wella ansawdd yr amgylchedd lleol."

Mae'r fenter yn cynnig hyfforddiant i Geidwaid Parciau a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i orfodi'r gyfraith a chyflwyno hysbysiadau cosb benodedig (HCB) am y drosedd wrthgymdeithasol hon.

Ychwanegodd y Cynghorydd Govier: "Ers y dechrau, mae'r weinyddiaeth hon wedi pwysleisio na fyddwn yn goddef sbwriel a baw cŵn yn ein cymunedau. Mae nifer yr HCBau sy'n cael eu cyflwyno am droseddau sbwriel a baw ci cyffredinol eisoes wedi cynyddu 74%, ac mae nifer yr erlyniadau hefyd wedi cynyddu 50%.

"Nod ein hymgyrch sbwriel ddiweddaraf, Yr Un Hen Rai, yw nodi'r math o sbwriel a gwastraff sy'n falltod ar ein dinas, ac sy'n costio £7m y flwyddyn i drethdalwyr.

"Mae baw ci, ynghyd â sbwriel cyffredinol, bonion sigaréts, gwm cnoi a thipio anghyfreithlon oll i'w gweld yn rheolaidd ar ein strydoedd. Rydyn ni wedi dangos ein bod yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth i ansawdd bywydau pobl ynghyd â gwneud i'r troseddwyr sylwi nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol ac y byddant yn cael eu cosbi."

Digwyddiadau'r Ddinas...

Digwyddiad arall i chi gan Gyngor Caerdydd www.caerdydd.gov.uk neu ffoniwch C2C ar 2087 2088

Y Theatr Newydd
Ffôn: 2087 8889
www.newtheatrecardiff.co.uk

Gweler y wefan am amseroedd perfformiadau.

Sherlock Holmes - The Best Kept Secret
Dydd Mawrth 18 Mehefin - dydd Sadwrn 22 Mehefin

Midnight Tango
Dydd Llun 24 Mehefin - dydd Sadwrn 29 Mehefin

Grandpa in my Pocket – Teamwork
Dydd Iau 4 Gorffennaf – dydd Sul 7 Gorffennaf

The Rocky Horror Show
Dydd Llun 8 Gorffennaf - dydd Sadwrn 13 Gorffennaf

The Faaaaaabulous Ceri Dupree Show
Dydd Gwener 19 Gorffennaf - dydd Sadwrn 20 Gorffennaf, 7.45pm

Neuadd Dewi Sant
Ffôn: 2087 8444
www.stdavidshallcardiff.co.uk

Gweler y wefan am amseroedd perfformiadau.

Canwr y Byd Caerdydd y BBC 2013
Dydd Llun 17 Mehefin – dydd Iau, 20 Mehefin, 7.30pm

Rownd Derfynol y Wobr Ganu - Canwr y Byd Caerdydd y BBC
Dydd Gwener, 21 Mehefin, 7.30pm

Dosbarthiadau Meistr Canwr y Byd Caerdydd y BBC
Dydd Sadwrn 22 Mehefin

Rownd Derfynol Canwr y Byd Caerdydd y BBC 2013
Dydd Sul, 23 Mehefin, 6.45pm

Cerddorfa Symffoni Coleg Brenhinol Cymru – Essential Elgar
Dydd Mercher, 26 Mehefin, 7.30pm

George Thorogood & The Destroyers
Dydd Iau, 27 Mehefin, 7.30pm

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC – Pumed Symffoni Mahler
Dydd Gwener, 28 Mehefin, 7.30pm

Colm Wilkinson - 'Bring Him Home Tour'
Dydd Sadwrn, 29 Mehefin, 7.30pm

Fernhill – Cerddoriaeth werin
Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf, 8pm

Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd – Hwyl yr Haf
Dydd Sadwrn, 6 Gorffennaf, 7.30pm

Dathliad Lleisau'r Ddinas, Caerdydd
Dydd Sul, 7 Gorffennaf, 7pm

Castell Caerdydd
Ffôn: 2087 8100
www.castell-caerdydd.com

Joust!
Dydd Sadwrn 22 Mehefin - dydd Sul 23 Mehefin, 10am – 5pm Diwrnod o gyffro canoloesol i'r teulu cyfan. Bydd Knights of Royal England yn dychwelyd am sioe wefreiddiol arall llawn marchogaeth benigamp gyda digon o gyfle i'r gynulleidfa gymryd rhan. Gallwch gwrdd â draig, ymuno â pharêd y plant a chofiwch wisgo i fyny ar y diwrnod fel tywysoges neu farchog. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn archebu tocynnau ar gyfer y digwyddiad hwn yn gynnar.

Theatr Awyr Agored: As You Like It
Dydd Gwener 5 Gorffennaf - dydd Sadwrn 6 Gorffennaf, 7.30pm, Ym mherfformiad The Lord Chamberlain's Men, bydd y grŵp yn dod â chwa o awyr iach i glasur hafaidd a doniol Shakespeare. Mae'n ddigwyddiad awyr agored ar ffurf picnic felly ni fydd seddi. Dewch â lliain neu gadair wersylla isel i eistedd arni.

Digwyddiadau'r Parciau
Ffôn: 2068 4000
www.caerdydd.gov.uk/parciau

Taith gerdded tegeirianau Howardian
Dydd Sadwrn 22 Mehefin, 2pm - 4pm Cwrdd wrth fynedfa David Lloyd ar Ipswich Road.

Gwasanaeth coffa'r babanod, Capel y Wenallt
Dydd Sul 23 Mehefin, 11.30am - 12.30pm Am ddim.

Lords of bricks and mortar: Cardiff's Castles and the aesthetics of power
Dydd Mercher 26 Mehefin, 6pm – 7.45pm Darlith gan Dr Andrew Richardson (Prifysgol Caerdydd). I gadw lle ffoniwch 029 2078 8403. Cost £3.

Cwest Natur yr RSPB – Parc y Rhath
Dydd Sadwrn, 29 Mehefin, 10am - 4pm Cwrdd ym mhabell yr RSPB ger y Tŷ Gwydr. Croesewir rhoddion ar gyfer llogi'r pecynnau Cwest Natur.

Gŵyl Parc y Rhath – Ardal Chwarae'r Plant, Gerddi Pleser Parc y Rhath a Thir Hamdden y Rhath Dydd Sadwrn 6 Gorffennaf Digwyddiad i'r teulu cyfan gyda cherddoriaeth, stondinau, gemau a mwy. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 029 2044 5911 neu 029 2044 5903.

Taith border blodau Parc Bute
Dydd Mercher 10 Gorffennaf, 2.30pm - 4pm Cwrdd ger Caffi'r Ardd Gudd. I gadw lle ffoniwch 029 2078 8403. Cost £2.

Taith Treftadaeth Mynwent Cathays
Dydd Sul 14 Gorffennaf, 2pm - 3.30pm Cwrdd wrth gatiau'r brif fynedfa yn Fairoak Road. Am ddim.

Llwybr yr afon yn Nant Fawr
Dydd Sul 14 Gorffennaf, 2pm - 4pm Dewch i weld pa greaduriaid sy'n byw yn nyfnderoedd yr afon. Cyfarfod ym maes parcio Cronfa Ddŵr Llanisien oddi ar Rhydypennau Road. Dewch â welîs gyda chi. Am ddim.

Llyfrgelloedd
Ffôn: 2038 2116
www.caerdydd.gov.uk/llyfrgelloedd

Gweithgareddau plant
Mae Llyfrgelloedd Caerdydd yn cynnig Amser Odli, Amser Stori a sesiynau Iaith a Chwarae am ddim i fabanod a phlant bach.

Mae Amser Odli i blant 0-2 oed bob bore dydd Mercher ac Iau am 10.30am yn y Llyfrgell Ganolog, yr Aes. Cadwch le drwy ffonio 029 2078 0953 neu e-bostio llyfrgellyplant@caerdydd.gov.uk

Mae Amser Stori i blant 2-4 oed bob dydd Mawrth a Gwener am 10.30am yn y Llyfrgell Ganolog.

Mae gennym lawer o weithgareddau sy'n digwydd ym mhob rhan o Gaerdydd. Cysylltwch â'ch llyfrgell leol i ganfod pa weithgareddau sydd ar gael i blant bach yn eich ardal chi.

Llyfrgell Treganna 2022 9935
Llyfrgell Cathays 2078 5580
Llyfrgell Trelái 2056 2064
Llyfrgell y Tyllgoed 2078 5583
Llyfrgell Grangetown 2023 0526
Llyfrgell Ystum Taf 2061 3182
Llyfrgell Llanedern 2073 1428
Llyfrgell Llanisien 2075 0634
Llyfrgell Llanrhymni 2078 0994
Llyfrgell Pen-y-lan 2078 8400
Llyfrgell Radur 2078 0996
Llyfrgell Rhiwbeina 2069 3276
Llyfrgell Rhydypennau 2075 4657
Llyfrgell y Rhath 2049 4538
Llyfrgell Tredelerch 2079 5834
Llyfrgell Sblot 2046 2522
Llyfrgell Llaneirwg 2078 0992
Llyfrgell yr Eglwys Newydd 2062 8951

Bore Coffi
Llyfrgell Rhydypennau. Dydd Gwener olaf bob mis. Te Masnach Deg a choffi hidl ar gael. Cwisiau, papurau newydd a chroeseiriau hefyd ar gael. Ffoniwch 2075 4657 i gael manylion.

Cerddoriaeth Fyw
Y Llyfrgell Ganolog. Dydd Sadwrn o 1pm. Amrywiaeth eang o artistiaid yn perfformio'n fyw. Ffoniwch y llyfrgell ar 2078 0959 am fanylion.

Canolfan Mileniwm Cymru
Ffôn: 2063 6464
www.wmc.org.uk

Gweler y wefan am amseroedd perfformiadau.

Hairspray
Dydd Mawrth 18 Mehefin – dydd Sadwrn 29 Mehefin

Cirque Inextremiste - Extrêmités
Dydd Mercher 19 Mehefin – dydd Iau 20 Mehefin, 8pm

Theatr Hijinx - The Adventures of Sancho Panza
Dydd Gwener 21 Mehefin - dydd Sadwrn 22 Mehefin

Jimmy Carr: Gagging Order
Dydd Sul 30 Mehefin, 8pm

Lionboy
Dydd Mercher 3 Gorffennaf - dydd Sadwrn 6 Gorffennaf

The Pirates of Penzance
Dydd Mawrth 16 Gorffennaf – dydd Sadwrn 20 Gorffennaf

Ynys Echi
Ffôn: 2087 7900
www.ynysechni.com

Yn gyfoeth o fywyd gwyllt a hanes, mae'r ynys unigryw hon yn berffaith i'r teulu cyfan. Beth am archebu taith i grwydro'r ynys neu aros dros nos yn y lleoliad godidog hwn, gwta 5 milltir o Gaerdydd. Gellir trefnu ymweliadau â'r ynys drwy drefnwyr masnachol lleol, neu cysylltwch â'n swyddfa ni i drefnu archebion arbenigol neu breswyl ar 029 2087 7912. Manylion llawn yn: www.ynysechni.com

Canolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd
Ffôn: 2087 7959
www.eglwysnorwyaiddcaerdydd.com

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Bae Caerdydd
Dyddiad cau: Dydd Llun 15 Gorffennaf Glannau'r dŵr, adeiladau hanesyddol ac atyniadau; Bae Caerdydd yw'r lle perffaith ar gyfer eich ffotograff. Nid oes yn rhaid i chi fod yn ffotograffydd proffesiynol; rydyn ni am weld pob math o luniau... o ddiwrnodau allan i'r teulu i luniau artistig a chreadigol, cyhyd â'u bod yn dangos pa mor wych yw'r Bae! Caiff y llun buddugol ei arddangos yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd, ac nid dyna'r cyfan... byddwch yn ennill noson yng Ngwesty a Sba Dewi Sant ar lannau dŵr Bae Caerdydd a 2 docyn i weld Singing in the Rain yng Nghanolfan Mileniwm Cymru! Ewch i www.visitcardiffbay.info i weld y telerau ac amodau.

Zumba
Bob dydd Llun, 5.30pm – 6.30pm

Dawnsio Stryd
Bob dydd Mawrth, 5.30pm – 6.30pm

Arddangosfa Gelf – Edwards a Stewart
Dydd Llun 17 Mehefin – dydd Sul 23 Mehefin, 9am - 6pm

Scottish Diva - Terry Neason
Dydd Iau 20 Mehefin, 7.30pm

Andrew Coslett a Howard Jones – arddangosfa
Dydd Llun 24 Mehefin – dydd Sul 7 Gorffennaf, 9am - 6pm

Michael Bennett - Cyngerdd
Dydd Gwener 5 Gorffennaf, 7.30pm – 9.30pm
£7 ymlaen llaw / £8 wrth y drws.

The Friday Group – Arddangosfa Gelf
Dydd Mawrth 9 Gorffennaf – dydd Gwener 19 Gorffennaf, 9am – 6pm

Digwyddiadau'r Bae a'r Ddinas
E-bost:
digwyddiadau@caerdydd.gov.uk
E-bost:
Eventsmarketing@caerdydd.gov.uk
www.caerdydd.gov.uk
www.gwylcaerdydd.com
2087 2087/8 (cym).
Mae'r holl ddigwyddiadau'n amodol ar gadarnhad.

Mae gwybodaeth ynglyn â'r bws nos L8 ar gael gan: 0870 608 2608 a www.cardiffbus.com

Gŵyl Caerdydd 2013 – Digwyddiadau at ddant pawb!
Dydd Mercher 12 Mehefin – dydd Sadwrn 31 Awst
Yn gyfuniad o gelf, chwaraeon a diwylliant, bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ar hyd a lled y ddinas dros yr haf. O wyliau bwyd i bicnic i'r teulu; sioeau cerdd i ddigwyddiad 'mela'; hwylio i theatr stryd. Gwnewch y gorau o'r haf eleni. Ewch i www.gwylcaerdydd.com

Tafwyl – Gŵyl Gymraeg Caerdydd
Dydd Gwener 14 Mehefin – dydd Gwener 21 Mehefin
Mae Tafwyl yn ŵyl wythnos o hyd llawn gweithgareddau Cymraeg mewn lleoliadau amrywiol yn y ddinas. I gael manylion ewch i www.tafwyl.org

Cwpan y Byd Slalom Canŵ ICF, Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd
Dydd Gwener 21 Mehefin – dydd Sul 23 Mehefin. Dyma un o'r digwyddiadau Slalom Canŵ mwyaf cyffrous – i'r gwylwyr yn ogystal â'r cystadleuwyr. Am docynnau ewch i www.canoecardiff2013.com

Gŵyl Ifan
Dydd Gwener 21 Mehefin – dydd Sul 23 Mehefin. Dewch i gael blas ar gerddoriaeth, dawns a gwisgoedd lliwgar Cymreig traddodiadol yn y digwyddiad gwych hwn. I gael manylion ewch i www.gwylifan.org

Regata Clwb Hwylio Bae Caerdydd - Clwb Hwylio Bae Caerdydd a'r Bae
Dydd Sadwrn 29 Mehefin – dydd Sul 30 Mehefin. Gweithgareddau hwylio amrywiol ar y dŵr i aelodau a phobl eraill i gymryd rhan yn y regata flynyddol. Am ddim i wylwyr. I gael manylion ewch i www.cbyc.co.uk

Mela Amlddiwylliannol Caerdydd
Dydd Sul 30 Mehefin, 12pm - 6pm
Mae'r Mela'n gyfle i brofi amrywiaeth helaeth o ddiwylliannau, cerddoriaeth, dawns, celf, ffasiwn, bwyd a llawer mwy. Am ddim i wylwyr. I gael manylion ewch i www.gwylcaerdydd.com

Gŵyl Bwyd a Diod Ryngwladol Caerdydd - Roald Dahl Plass a'r Harbwr Mewnol, Bae Caerdydd
Dydd Gwener 12 Gorffennaf – dydd Sul 14 Gorffennaf, Bydd Bae Caerdydd yn llawn caws fferm, siocled cartref, gwirodlynnau arbenigol a llawer mwy i ddod â dŵr i'r dannedd. Gyda cherddoriaeth ac adloniant i'r teulu cyfan mae hwn yn un o hoff ddigwyddiadau haf y brifddinas. I gael manylion ewch i www.gwylcaerdydd.com

Canolfan Gweithgareddau Dŵr Bae Caerdydd
Rhowch gynnig ar hwylio, rhwyfo, gyrru cwch modur, hwylfyrddio, saethyddiaeth, pysgota a mwy. Cysylltwch â ni ar 029 2087 7977 neu 029 2035 3912 neu ewch i www.cbwac.com

Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd
Rafftio dŵr gwyn, caiacio, canŵio a phadl-fyrddio ar eich traed. Croeso i bawb o bob gallu, 8+ oed. Ewch i www.dgrhc.com neu ffoniwch 029 2082 9970.

Marchnadoedd Ffermwyr Caerdydd
Rhiwbeina, Butcher's Arms - Bob dydd Gwener 10am-1pm
Y Rhath, Clwb Chwaraeon Mackintosh - Bob dydd Sadwrn 9.30am-1pm
Glan-yr-afon, Fitzhamon Embankment - Bob dydd Sul 10am - 2pm
Mae marchnad Hen Greiriau, Llyfrau, Sborion, Dillad, Bwyd a Chelfi ar Heol Eglwys Fair bob dydd Sadwrn hefyd, 11am - 5pm. I gael manylion ewch i www.riversidemarket.org.uk

Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd
Cyfres o areithiau a theithiau maes yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd gwyllt, o blanhigion ac anifeiliaid i'r amgylchedd a daeareg. I gael manylion ewch i www.cardiffnaturalists.org.uk

Cymdeithas Ffilatelig Caerdydd
Stampiau, cardiau post neu hanes y post. Bob yn ail nos Fawrth, 7.30pm yn Eglwys y Bedyddwyr Llanisien, Fidlas Road, Llanisien, CF14 5LZ. I gael manylion ewch i www.cardiffphilatelicsociety.org.uk

Cymdeithas Llynges Frenhinol Caerdydd
Yn cwrdd ar ail ddydd Llun y mis am 7.30pm yng Nghlwb y Llynges Frenhinol Brydeinig, Tredelerch. Croeso i aelodau presennol a chyn-aelodau o'r Llynges Brydeinig. Manylion ar gael drwy ffonio 07926 030327 neu e-bostio jeffhadley@hotmail.co.uk

Cymdeithas Cymrodorion Catrodol Brenhinol Cymru Cangen Dinas Caerdydd
Mae croeso i gyn-aelodau ac aelodau presennol o Fataliwn Brenhinol Cymru, y Gwarchodlu Cymreig, Cyffinwyr De Cymru, Catrawd Brenhinol Cymru ac unrhyw fataliynau tiriogaethol neu arferol cysylltiedig. Cyfarfod yn Ystafell Fwyta'r Gwarant Swyddog a'r Sarsiant ym Marics Maendy ar y trydydd dydd Gwener bob mis am 7.30pm. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 02920 8115 neu 029 2054 9577.

Clwb Llun
Os ydych yn 50 oed neu'n hŷn ac am wneud ffrindiau newydd a mwynhau gêm o fingo, dewch draw i'r clwb wythnosol yng Nghlwb y Gwarchodlu Cartref, Trelái, am 1.30pm. Lluniaeth am ddim hefyd ar gael.

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – Clogyn Aur y Wyddgrug
Dydd Mawrth 2 Gorffennaf – dydd Sul 4 Awst. Dysgwch am y clogyn aur rhyfeddol hwn a'r bobl a'i wnaeth yn yr Oes Efydd Gynnar. Am ddim.
Rhestr lawn o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd yn www.amgueddfacymru.ac.uk

Cymdeithas Flodau Rhiwbeina
Yn cwrdd yn Neuadd Goffa Rhiwbeina, Lôn Ucha, CF14 6HL ar y dydd Mawrth cyntaf a'r trydydd dydd Mawrth bob mis. Ewch i www.rhiwbinafloralsociety.org.uk am fanylion.

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Gwybodaeth am berfformiadau yn www.rwcmd.ac.uk. Swyddfa Docynnau: 029 2039 1391 / boxoffice@rwcmd.ac.uk

Sherman Cymru
Flight (Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru) Dydd Iau 20 Mehefin – dydd Sadwrn 22 Mehefin
Trwy'r Ddinas Hon
Dydd Mawrth 25 Mehefin – dydd Sadwrn 29 Mehefin, 8pm I gael manylion am y rhain a digwyddiadau eraill ewch i www.shermancymru.co.uk neu ffoniwch 029 2064 6900.

Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru – Tu ôl i'r Llenni: O Dan y Dillad (wedi ffeindio hwn ar y wefan!)
Dydd Iau 11 Gorffennaf, 2pm (Saesneg), 3pm (Cymraeg)
Dysgwch am gyfrinachau casgliad tecstilau ein cyndeidiau. Rhaid archebu: 029 2057 3424. Am ddim. I gael gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk

Canolfan Gelfyddydau a Chymunedol The Gate
I gael gwybodaeth am berfformiadau, ewch i www.thegate.org.uk neu ffoniwch 029 2048 3344.

Grŵp gwŷr a gwragedd gweddw Cymru
Rydym yn cwrdd bob nos Sadwrn i ymweld â bwytai lleol, mwynhau adloniant byw a chael sgwrs a diod fach. Mae gennym hefyd glwb cinio dydd Mercher bob yn ail wythnos. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 07749 542858 neu e-bostiwch friends@welshwidoes.co.uk / gwefan www.welshwidows.co.uk

Eich cymorthfeydd

> **ADAMSDOWN**
Nigel Howells.
Y dydd Sadwrn 1af a'r 3ydd dydd Sadwrn o bob mis. 11am – hanner dydd yn Llyfrgell y Rhath, Heol Casnewydd. I ofyn am ymweliad personol ffoniwch: 029 2046 5233
Manzoor Ahmed.
Yr 2il a'r 4ydd dydd Sadwrn o bob mis. 10.30 - 11.30am yn Llyfrgell y Rhath, Heol Casnewydd. Rhif ffôn cyswllt: 07850 743355

> **BUTETOWN**
Ali Ahmed.
Yr 2il a'r 4ydd dydd Sadwrn o bob mis. 11am – hanner dydd yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd (yn y swyddfa i'r chwith o'r dderbynfa). Cymorthfeydd stryd ar ddydd Sadwrn - 12.15pm - 1.15pm. Ffoniwch 07976 358696 i gael rhagor o fanylion.

> **CAERAU**
Peter Bradbury ac Elaine Simmons.
Dydd Sadwrn 8 a 22 Mehefin a dydd Sadwrn 6 a 20 Gorffennaf 2013 10am - 11am, Canolfan Hamdden y Gorllewin, Caerau Lane. Nid oes angen apwyntiad. Ffoniwch 07973 179577 i gael rhagor o fanylion

> **TREGANNA**
Richard Cook, Cerys Furlong a Ramesh Patel.
Bob Dydd Sadwrn 10am i 11am O 1 Mehefin 2013 am 6 mis bydd y lleoliad yn newid i Eglwys Gyfannol Treganna, Cowbridge Road East, Caerdydd CF5 1LQ. Nid oes angen apwyntiad.

> **CATHAYS**
Elizabeth Clark.
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis. 11am – hanner dydd yn Llyfrgell Cathays, Fairoak Road. Cysylltwch â'r Cynghorydd Clark ar 20630311 neu e- bostiwch eclark@caerdydd.gov.uk
Sam Knight, Sarah Merry a Christopher Weaver.
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis. 11am – hanner dydd, Canolfan Gymunedol Cathays, Cathays Terrace. Bob dydd Sadwrn arall yn Llyfrgell Cathays, Fairoak Road. Cysylltwch â Gwasanaethau Aelodau ar 029 2087 2020 i gael manylion cymorthfeydd canol y ddinas.

> **CREIGIAU A SAIN FFAGAN**
Graham Thomas
I drefnu apwyntiad neu ymweliad â'r tŷ, anfonwch e-bost at: graham.thomas@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch y Cynghorydd Thomas ar 07805 850812 neu Gwasanaethau Aelodau ar 029 2087 2020.

> **CYNCOED**
Kate Lloyd, Margaret Jones a David Rees
Dydd Mawrth 18 Mehefin 2013 am 10.00 yng Nghaffi Terra Nova, Y Promenâd, Parc y Rhath 23 Gorffennaf 2013 am 10am yng Nghaffi Anatoni's, Clearwater Way, Canolfan Siopa Lakeside I gael rhagor o fanylion cysylltwch â Gwasanaethau Aelodau ar 029 2087 2020

> **TRELÁI**
Jim Murphy, Susan Goddard a Russell Goodway.
Y dydd Sadwrn 1af a'r 3ydd dydd Sadwrn o bob mis ac eithrio mis Awst. Canolfan Ddydd Trelái, Grand Avenue, Trelái. Ffoniwch y Gwasanaethau Aelodau ar 029 2087 2020

> **Y TYLLGOED**
Lisa Ford a Neil McEvoy.
Bob dydd Sadwrn 11.00am – hanner dydd yn Llyfrgell y Tyllgoed. Bob dydd Mercher, hanner dydd tan 1pm, Canolfan Gymunedol Pentre-baen. Cysylltwch â'r Cynghorydd Ford: Ffôn: 07891 518426 e-bost: LisaFord@caerdydd.gov.uk
Y Cynghorydd McEvoy: Ffôn: 07966 375523 e-bost: NMcEvoy@caerdydd.gov.uk
Paul Mitchell.
Y dydd Sadwrn 1af a'r 3ydd dydd Sadwrn o bob mis, 11am – 1pm, cymorthfeydd stryd mewn lleoliadau amrywiol. Yr 2il a'r 4ydd dydd Sadwrn, 2pm - 3.30pm, cymorthfeydd penodol yn Llyfrgell y Tyllgoed. Cysylltwch â paul.mitchell@caerdydd.gov.uk am ragor o fanylion.

> **GABALFA**
Ed Bridges a Gareth Holden.
Dydd Iau 4 Gorffennaf, 6-7pm: Tafarn y North Star, Heol y Gogledd Dydd Iau 1 Awst, 6-7pm: Tafarn yr Heath, Whitchurch Road Ewch i'r wefan neu darllenwch y wasg leol i gael gwybod y lleoliad

> **GRANGETOWN**
Ashley Govier, Chris (John) Lomax a Linda Thorne.
Bob dydd Sadwrn o 10.30am yn Llyfrgell Grangetown, Havelock Place. 3ydd dydd Llun pob mis, hanner dydd - 1pm yn Llyfrgell Grangetown, Havelock Place.Dydd Mercher cyntaf pob mis, o 6pm yn Ystafell Gymunedol Fflatiau Channel View.

> **Y MYNYDD BYCHAN**
Fenella Bowden.
Dydd Sadwrn cyntaf y mis, 10am - 11am yn Ysgol Birchgrove; ac fel yr hysbysebir yn y ward. Rhif ffôn cyswllt: 029 2069 2435.
Lyn Hudson.
Dydd Mercher 1af pob mis (ac eithrio mis Awst). 5.30pm-6.30pm. Canolfan Gymunedol Maes-y-coed.
Graham Hinchey.
Dydd Llun 1af pob mis (ac eithrio mis Awst). 5.30pm - 6.30pm
Canolfan Gymunedol Maes-y-coed. I gael manylion ynghylch Cymorthfeydd Stryd cysylltwch â'r Cynghorydd Hinchey

> **LLYS-FAEN**
David Walker.
I drefnu apwyntiad ffoniwch y Cynghorydd Walker ar 029 2076 5836.

> **LLANDAF**
Gareth Aubrey a Kirsty Davies.
2il ddydd Sadwrn pob mis, 12.30pm - 1.30pm, yn Neuadd y Plwyf, Llandaf. 4ydd dydd Sadwrn pob mis, hanner dydd tan 1pm yn Neuadd Sant Ioan, Danescourt.

> **YSTUM TAF**
Dilwar Ali a Siobhan Corria.
Dydd Mawrth 1af a 3ydd dydd Mawrth bob mis, 5.30-6.30pm, Llyfrgell Ystum Taf, Gabalfa Avenue, Ystum Taf. 2il a'r 4ydd dydd Iau o bob mis 10.00am - 11.00am. Canolfan Addysg Gymunedol Gabalfa, Colwill Road, Ystum Taf

> **LLANISIEN**
Phil Bale, Garry Hunt a Julia Magill.
Bob dydd Sadwrn, 10am - 11am, Swyddfa Llafur Gogledd Caerdydd, 13 Llangranog Road, Llanisien.
Andrew Graham.
I drefnu apwyntiad neu ymweliad â'r tŷ, anfonwch e-bost at: Andrew.Graham@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch y Cynghorydd Graham ar 029 2075 1364 neu'r Gwasanaethau Aelodau ar 029 2087 2020.

> **LLANRHYMNI**
Heather Joyce, Derrick Morgan a Keith Jones.
Y dydd Sadwrn cyntaf o bob mis; a phob dydd Mawrth am 9.30am yn Llyfrgell Llanrhymni, Countisbury Avenue.

> **PENTWYN**
Joseph Carter, Paul Chaundy, Keith Hyde a Judith Woodman.
Bob yn ail ddydd Gwener (yn ystod y tymor ysgol yn unig). 11.30am - 12.30pm yn y Pwerdy, Llanedern. Ffoniwch 029 2054 9650; neu 11.30am - 12.30pm yn y Dôm, Pentwyn, Ffoniwch 029 2054 9033. Nid oes angen apwyntiad.

> **PENTYRCH**
Craig Williams.
I drefnu apwyntiad neu ymweliad â'r tŷ ffoniwch 07843 233083 neu anfonwch e-bost at crwilliams@caerdydd.gov.uk

> **PEN-Y-LAN**
Joe Boyle, Patricia Burfoot, a Bill Kelloway.
Dydd Gwener, 28 Mehefin a 19 Gorffennaf 2013 rhwng 6.00pm – 7.00pm yn y Cyntedd, Ysgol Gynradd Marlborough, Blenheim Road.

> **PLASNEWYDD**
Daniel De'Ath, Mohammed Javed, Sue Lent a Mary McGarry.
Pob bore Sadwrn. 10.00am- 11.00am – Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Pen-y-lan, Ninian Road (ac eithrio mis Awst)

> **PONTPRENNAU A PHENTREF LLANEIRWG**
Dianne Rees.
Dydd Sadwrn 1af pob mis (ac eithrio mis Awst). 9.30am – 10.30am yng Nghapel y Bedyddwyr Caer Salem, Tŷ'r Winch Road. Dydd Llun cyntaf pob mis (ac eithrio Gwyliau Banc a mis Awst). 6.00pm - 7.00pm - Canolfan Gymunedol Pontprennau, Heol Pontprennau
Georgina Phillips
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis, 9.30am - 10.30am. I fyny'r grisiau, Canolfan Eglwys Gymunedol Pontprennau, Heol pontprennau. Dydd Sadwrn cyntaf pob mis, 11am – hanner dydd. Y neuadd y tu ôl i Eglwys Babyddol Caersalem, Mill Lane, Pentref Llaneirwg.

> **RADUR A PHENTRE-POETH**
Roderick McKerlich.
I drefnu apwyntiad ffoniwch y Cynghorydd McKerlich ar 029 2084 3106 E-bost rmckerlich@caerdydd.gov.uk

> **RHIWBEINA**
Jayne Cowan, Eleanor Sanders ac Adrian Robson.
Dydd Sadwrn 29 Mehefin 2013 rhwng 10.00am a hanner dydd Llyfrgell Rhiwbeina, Pen y Dre. Gŵyl Rhiwbeina - Cymhorthfa Foreol a Chymhorthfa Ward gydag adran Y Dreth Gyngor, yr Adran Budd-daliadau a Larymau Cymunedol ar gael i gynnig cyngor a gwybodaeth. Dydd Gwener 5 Gorffennaf, 10.30am – hanner dydd. 3ydd Pen-blwydd Marchnad Ffermwyn Rhiwbeina, Maes Parcio'r Butchers Arms Bydd Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Caerdydd, y Cyng Derrick Morgan yn bresennol yn y digwyddiad hwn.

> **GLAN-YR-AFON**
Iona Gordon, Cecilia Love a Phil Hawkins.
Dydd Sadwrn rhwng 12.30 tan 1.30pm yn 2 Clare Street, Glan-yr-afon [Y gornel â Tudor Street] Nid oes angen apwyntiad.

> **TREDELERCH**
Bob Derbyshire a Jacqui Parry
Dydd Mawrth cyntaf pob mis.10am yn Llyfrgell Tredelerch, Brachdy Road. 3ydd dydd Iau pob mis, 6.30pm tan 7.30pm yng Nghanolfan Gymunedol Tredelerch, Llanstephan Road.

> **SBLOT**
Gretta Marshall, Luke Holland a Huw Thomas
Dydd Mercher cyntaf y mis. 2.00pm - 3.00pm yng Nghanolfan Star, Splott Road, Sblot CF24 2BZ. 2il a 3ydd dydd Mercher o bob mis, o 6.00pm, Canolfan Gymunedol Moorland, Moorland Road, Sblot, CF24 2LG.

> **TROWBRIDGE**
Ralph Cook, Michael Michael a Monica Walsh.
Bydd y Cynghorwyr Ralph Cook a Monica Walsh yn falch o'ch gweld chi ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis (ac eithrio mis Awst a mis Ionawr) 10am yn Llyfrgell Llaneirwg, Crickhowell Road, Llaneirwg. Bydd y Cynghorydd Michael Michael yn falch o'ch gweld ar ddydd Mercher cyntaf pob mis (ac eithrio mis Awst a mis Ionawr) 9am-10am, Canolfan Gymunedol Trowbridge, Caernarvon Way, Tredelerch.

> **YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS**
Jonathan Evans, Chris Davis, David Groves a Benjamin Thomas
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis, 11am – hanner dydd yn Llyfrgell yr Eglwys Newydd. Ail ddydd Sadwrn pob mis, 11am – hanner dydd, Canolfan Gymunedol yr Eglwys Newydd. Trydydd dydd Sadwrn pob mis, 11am - hanner dydd yn Eglwys y Bedyddwyr Ararat, Yr Eglwys Newydd. Pedwerydd dydd Sadwrn y mis, 11am – 12 hanner dydd yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig Bethesda, Tongwynlais.

Mae'r Cynghorwyr hefyd ar gael dros y ffôn. Ffoniwch y Gwasanaethau Aelodau ar 2087 2020 neu ewch i www.caerdydd.gov.uk/cynghorwyr i gael rhagor o fanylion. Ni chynhelir cymorthfeydd ar Wyliau banc.

Hysbysiadau'r Ddinas...

HYSBYSIAD CYHOEDDUS

GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (HEOL Y GOGLEDD/A470, CAERDYDD) (LON FYSIAU) 2013

1. Rhoddir hysbysiad drwy hyn fod Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar 14 Mehefin, 2013, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Priffyrdd 1980, Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd a Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010, a'r holl bwerau galluogi eraill, wedi gwneud Gorchymyn a fydd yn sefydlu lôn fysiau ar Heol y Gogledd ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 32 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd ag Australia Road at bwynt 135 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Pen-y-Bryn Way, Caerdydd.

2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Mehefin, 2013 neu ar y dyddiad y caiff y llinellau a'r arwyddion angenrheidiol eu gosod ar y safle, pa bynnag un sydd hwyraf.

3. Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn ynghyd â chynllun yn dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn y cyfeiriad a nodir isod, a gellir eu harchwilio rhwng 9.00 a.m. - ac 1.00 p.m. a rhwng 2.00p.m. - a 5.00 p.m.

4. Os ydych am gwestiynu darpariaethau neu ddilysrwydd y Gorchymyn ar y sail nad ydynt yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn gallwch, o fewn chwe wythnos 0 14 Mehefin, 2013, wneud cais i'r Uchel Lys i'r perwyl hwnnw.

Dyddiedig 17 Mehefin, 2013

Melanie Clay, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

RHEOLIADAU TRAFFIG ARFAETHEDIG CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

1. Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 1 a 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd a Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010, a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud y Gorchmynion a nodir yn yr Atodlen isod. Mae teitlau arfaethedig y Gorchmynion hefyd wedi'u nodi yn yr atodlen isod.

2. Gellir gweld manylion llawn y cynnig yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa arferol.

3. Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiad sydd gennych ynghylch unrhyw un o'r cynigion yn ysgrifenedig ataf erbyn 12 Gorffennaf 2013 a rhaid iddo gynnwys y rhesymau dros eich gwrthwynebiad. Gellir rhyddhau unrhyw wrthwynebiadau o'r fath i gael eu harchwilio gan unrhyw barti sydd â diddordeb.

ATODLEN

Mae GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (LLANDAFF ROAD, CAERDYDD) (AROS CYFYNGEDIG) 2013 yn cynnig diwygio'r cyfyngiadau presennol ar Llandaff Road a;

(i) cael gwared â'r cyfyngiadau aros cyfyngedig presennol yn Llandaf Road sydd ar hyn o bryd yn eich atal rhag gadael eich cerbyd am fwy nag 1 awr (ni chaniateir dychwelyd cyn pen 2 awr) o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8.00am a 6.30pm, ar ochr y dwyrain o bwynt 7 metr i'r de o'r gyffordd â Gray Street, Caerdydd am 24 metr i'r de a;

(ii) eich atal rhag gadael eich cerbyd am fwy nag 1 awr (ni chaniateir dychwelyd cyn pen 2 awr) o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8.00am a 6.30pm yn Llandaff Road, ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 62 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Gray Street am 24 metr i'r de-ddwyrain.

Mae GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (CEI BRITANNIA, CAERDYDD) (GWAHARDD AROS) 2013 yn cynnig eich rhwystro rhag gadael eich cerbyd ar unrhyw bryd yng Nghei Britannia ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 119 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Stryd Pen y Lanfa am 7 metr i'r de-ddwyrain ac ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 140 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Stryd Pen y Lanfa am 3 metr i'r de-ddwyrain.

Mae GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (ARDAL RIVER VIEW, CAERDYDD) (GWAHARDD AROS) 2013 yn cynnig diwygio'r cyfyngiadau presennol yn ardal River View a;

(i) cael gwared ar y cyfyngiadau aros presennol yn River View ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Western Avenue North at bwynt 30 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Lydstep Crescent ac o amgylch y pen caeedig ar ochr y de-orllewin o'r pen caeedig (30 metr i'r gogledd-orllewin gyferbyn â'r gyffordd â Lydstep Crescent) am 40 metr i'r de-ddwyrain a; Lydstep Crescent, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â River View am 13.5 metr i'r gogledd-ddwyrain, a; Llandinam Crescent , ar y ddwy ochr o'r gyffordd â River View am 13 metr i'r gogledd-ddwyrain a: Llanmorlais Road, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â River View am 13.5 metr i'r gogledd-ddwyrain; Nid yw'r cyfyngiadau hyn wedi'u marcio ar y ffordd eto a;

(ii) eich gwahardd rhag gadael eich cerbyd ar unrhyw adeg yn River View, ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Western Avenue North hyd at bwynt 30 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Lydstep Crescent ac o amgylch y pen caeedig, ac ar ochr y de-orllewin o'r pen caeedig (30 metr i'r gogledd-orllewin gyferbyn â'r gyffordd â Lydstep Crescent) am 40 metr i'r de-ddwyrain o'r pwynt hwn; a; Lydstep Crescent, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â River View am 13.5 metr i'r gogledd a; Llandinam Crescent ar y ddwy ochr o'r gyffordd â River View am 13 metr i'r gogledd a; Llanmorlais Road, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â River View am 13.5 metr i'r gogledd.

Dyddiedig 17 Mehefin 2013

Melanie Clay - Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

CYFYNGIADAU TRAFFIG NEWYDD AR GYFER DINAS A SIR CAERDYDD

Ar 12 Mehefin 2013 wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Deddf Priffyrdd 1980, Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd a Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010, gwnaeth Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd Orchmynion a fydd yn gosod cyfyngiadau traffig ar y darnau o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod.

Lle y bo'n berthnasol, ni roddir mwy na 3 trwydded fesul eiddo (bydd un o'r rhain yn Drwydded Ymwelydd) a bydd cost y trwyddedau hyn yn unol â Gorchymyn Cyngor Dinas a Sir Caerdydd (mannau Parcio ar y Stryd) (Taliadau) 1999 sef ar hyn o bryd:-

Cais am Drwydded fesul Cyfeiriad fesul Blwyddyn Ariannol	Y Ffi a Godir fesul pob trwydded a gyflwynir
1	£5
2	£30
Ymwelydd	£5

Daw'r Gorchmynion i rym ar 24 Mehefin 2013 neu ar y dyddiad y gosodir y llinellau a'r arwyddion angenrheidiol ar y safle, pa un bynnag a ddaw olaf. Gellir gweld copïau o'r Gorchmynion, ynghyd â chynlluniau yn dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt, yn y cyfeiriad a nodir isod, a gellir eu harchwilio rhwng 9.00 a.m. - 1.00 a rhwng 2.00p.m. - a 5.00 p.m.

Os dymunwch gwestiynu darpariaethau'r Gorchmynion ar y sail nad ydynt yn cydymffurfio â phwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, neu nad yw'r

Gorchymyn yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad neu offeryn a wnaed o dan y Ddeddf, gallwch, o fewn chwe wythnos i 12 Mehefin 2013, wneud cais i'r Uchel Lys i'r diben hwn.

ATODLEN

Bydd GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (WYEVERNE ROAD, CAERDYDD) (MANNAU PARCIO I BRESWYLWYR) 2013 yn creu Mannau Parcio i Breswylwyr (rhwng 8.00am a 10.00pm bob dydd) yn Wyeverne Road ar ochr y gogledd-orllewin, o bwynt 46 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Mundy Place am 59 metr i'r gorllewin ac ar ochr y de-ddwyrain, o bwynt 38 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Woodville Road am 110 metr i'r dwyrain.

Bydd GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (WYEVERNE ROAD, CAERDYDD) (GWAHARDD AROS) 2013 yn,

(i) eich atal rhag gadael eich cerbyd ar unrhyw adeg yn Wyeverne Road ar ochr y gogledd-orllewin, o bwynt 51 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Woodville Road am 5 metr i'r dwyrain ac o bwynt 37 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Mundy Place am 9 metr i'r gorllewin;

(ii) dirymu'r cyfyngiad dim aros o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 8am a 6.30pm, yn Wyeverne Road ar ochr y de, o ffin gyffredin Rhifau 143 a 145 Wyeverne Road am 13 metr i'r de-orllewin ac ar ochr y gogledd, o ffin gyffredin Rhifau 74 a 76 Wyeverne Road am 27 i'r de-orllewin.

Bydd GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (STATION ROAD (LLANISIEN)/THE RISE/REDWOOD COURT/OLD VICARAGE CLOSE/GLEBE PLACE, CAERDYDD) (GWAHARDD AROS) 2013 yn eich atal rhag gadael eich cerbyd ar unrhyw adeg yn:-

(i) Station Road (Llanisien) ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 17 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd ag Everest Avenue i bwynt 210 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r un gyffordd, ac o bwynt 108 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd ag Everest Avenue am 75 metr i'r de-orllewin, ac o'r gyffordd â Fidlas Road am 80 metr i'r gogledd-ddwyrain, ac ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 10 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Newlands Court i bwynt 15 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â The Rise, ac o bwynt 18 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Redwood Court am 75 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd ag Old Vicarage Close, ac o bwynt 15 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Glebe Place am 60 metr i'r de-orllewin.

ii) The Rise, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Station Road am 15 metr i'r de-ddwyrain.

(iii) Redwood Court, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Station Road am 8 metr i'r de-ddwyrain.

(iv) Old Vicarage Close, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Station Road am 12 metr i'r de-ddwyrain.

(v) Glebe Place, ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Station Road am 30 metr i'r de-ddwyrain.

Bydd GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (GORFODI PARCIO SIFIL) (TROSI) 2013 yn darparu ar gyfer gorfodi cyfyngiadau parcio gan swyddogion Gorfodi Parcio Sifil yn;

Lôn y Felin: o bwynt 85 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Heol Eglwys Fair i'r gyffordd â'r Aes. Heol Pont-yr-Aes: o bwynt 90 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Heol y Tollty i'r gyffordd â'r Aes. Yr Aes, Heol Hill
Stryd Working, Heol Sant Ioan.

Dyddiedig 17 Mehefin 2013

Melanie Clay - Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW

GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (WYEVERNE ROAD, CAERDYDD) (AROS CYFYNGEDIG) 2013

1. Hysbysir drwy hyn, ar 12 Mehefin 2013 fod Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd a'r Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010 yn gwneud Gorchymyn a fydd yn eich gwahardd rhag gadael eich cerbyd am fwy na 2 awr (ni chaniateir dychwelyd o fewn 2 awr) o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.00am a 6.30pm yn Wyeverne Road;

(i) ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 27 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â Mundy Place am 10 metr i'r gorllewin ac;

(ii) ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 15 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Woodville Road am 36 metr i'r dwyrain ac;

(iii) Ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 12 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Woodville Road am 26 metr i'r dwyrain.

2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Mehefin 2013 neu ar y dyddiad y gosodir y llinellau a'r arwyddion angenrheidiol ar y safle, p'un bynnag sydd hwyraf.

3. Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn ynghyd â chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni yn y cyfeiriad a nodir isod, a gellir eu harchwilio rhwng 9.00 a.m. - 1.00 a 2.00p.m. - a 5.00 p.m.

4. Os ydych am gwestiynu darpariaethau neu ddilysrwydd y Gorchymyn ar y sail nad yw o fewn y pwerau a ddyfarnwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, neu ar y sail na fodlonwyd unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf, mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 12 Mehefin 2013 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Dyddiedig 17 Mehefin 2013

Melanie Clay, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

CYFYNGIADAU TRAFFIG NEWYDD AR GYFER DINAS A SIR CAERDYDD

Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, ar 12 Mehefin 2012, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd a'r Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010, a'r holl bwerau gorfodi eraill, wedi gwneud Gorchmynion a fydd yn gosod cyfyngiadau traffig ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen isod. Mae teitlau'r Gorchmynion arfaethedig hefyd wedi'u nodi yn yr Atodlen honno.

Lle y bo'n berthnasol, bydd cost trwydded yn unol â Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Mannau Parcio ar y Stryd) (Taliadau) 1998 sef ar hyn o bryd:-

Cais fesul Cyfeiriad fesul Blwyddyn Ariannol	Ffi a godir fesul trwydded
1	£5
2	£30
Ymwelydd	£5

Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Mehefin 2013 a gellir gweld copïau o'r Gorchmynion, ynghyd â chynlluniau yn dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt, yn y cyfeiriad a nodir isod, a gellir eu harchwilio rhwng 9.00 a.m. ac 1.00pm a rhwng 2.00 p.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os dymunwch gwestiynu darpariaethau neu ddilysrwydd y Gorchmynion ar y sail nad ydynt yn cydymffurfio â phwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, neu nad yw'r Gorchmynion yn bodloni unrhyw ofyniad neu offeryn a wnaed o dan y Ddeddf, gallwch, o fewn chwe wythnos o 12 Mehefin 2013, wneud cais i'r Uchel Lys i'r diben hwnnw.

ATODLEN

1. Bydd Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Heol Don/Tredegar Court (Ffordd Fynediad) Caerdydd) 2013 yn eich atal rhag gadael eich cerbyd ar unrhyw bryd yn Heol Don ar ochr y gorllewin o bwynt 10 metr i'r gogledd o'r gyffordd â ffordd fynediad Tredegar Court i bwynt 10 metr i'r de o'r un gyffordd ac yn Tredegar Court (Ffordd Fynediad) ar y ddwy ochr i'r gyffordd â Heol Don am 5 metr i'r gorllewin.

2. Bydd Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (De Caerdydd) (Rheoli Parcio) 2012 (Diwygiad Rhif 1) 2013 yn cael gwared ar y Mannau Parcio Talu ac Arddangos presennol yn West Luton Place ar ochr y de-orllewin, o bwynt 2 fetr i'r de-ddwyrain o ffin gyffredin Rhif 5 West Luton Place a rhif 1 North Luton Place at bwynt 19 metr i'r de-ddwyrain o ffin gyffredin Rhif 5 West Luton Place a rhif 1 North Luton Place.

3. Bydd Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (West Luton Place, Caerdydd) (Gwahardd Aros) 2013 yn eich atal rhag gadael eich cerbyd ar unrhyw adeg yn West Luton Place ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r gyffordd â South Luton Place am 14 metr i'r gogledd-orllewin ac ar ochr y de-orllewin, o ben caeëdig West Luton Place am 10 metr i'r gogledd-ddwyrain.

4. Bydd Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (West Luton Place, Caerdydd) (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2013 yn sefydlu Man Parcio i Breswylwyr (rhwng 8.00am a 10.00pm bob dydd) yn West Luton Place ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 14 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â South Luton Place am 16 metr i'r gogledd-orllewin ac ar ochr y de-orllewin, o bwynt 10.5 metr i'r gogledd-orllewin o ben caeëdig West Luton Place am 10.5 metr i'r gogledd-orllewin.

Dyddiad 17 Mehefin, 2013

Melanie Clay - Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

GORCHYMYN (DIDDYMU) GORCHYMYN (RHEOLEIDDIO TRAFFIG) 1969 DINAS A SIR CAERDYDD (KING GEORGE V DRIVE EAST) 2013

1. Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rhan IV o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno o 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill o ran hynny yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn diddymu'r gwaharddiad ar gyfyngiadau gyrru ar droedffordd King George V Drive East.

2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa arferol a rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad sydd gennych i'r cynnig i mi yn ysgrifenedig erbyn 12 Gorffennaf a rhaid nodi eich rhesymau dros wrthwynebu. Gellir rhannu unrhyw wrthwynebiadau sy'n dod i law â thrydydd partïon â diddordeb.

Dyddiedig 17 Mehefin 2013

Melanie Clay - Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW

GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (CAERPHILLY ROAD (LLWYBR BEICIO/CERDDED), CAERDYDD) (LLWYBR BEICIO/CERDDED) 2013

1. Rhoddir hysbysiad trwy hyn fod Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, ar 13 Mehefin 2013, wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 66(4) a 65 Deddf Priffyrdd 1980 ac Adrannau 1 a 2 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill wedi gwneud gorchymyn i'ch atal chi rhag gyrru unrhyw gerbyd ac eithrio beic pedal ar hyd y llwybr cerdded ar ochr gorllewin Caerphilly Road o'r gyffordd â Hampton Road i'r gyffordd â Lon-y-Groes ac ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â Rhydhelig Avenue am 195 metr i'r de.

2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Mehefin 2013 neu ar y dyddiad y caiff y llinellau a'r arwyddion angenrheidiol eu gosod ar y safle, pa bynnag un sydd hwyraf.

3. Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn ynghyd â chynllun yn dangos yr ardal yr effeithir arni yn y cyfeiriad a nodir isod, a gellir eu harchwilio rhwng 9.00 a.m. a 1.00 p.m. a 2.00p.m. a 5.00 p.m.

4. Os ydych am gwestiynu darpariaethau neu ddilysrwydd y Gorchymyn ar y sail nad ydynt yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf, mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 13 Mehefin 2013 wneud cais i'r Uchel Lys i'r perwyl hwnnw.

Dyddiedig 24 Mehefin 2013.

Melanie Clay, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.